# Y TINCER

PRIS 60c

Rhif 328

Ebrill 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Y Fi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da




Nos Iau, y 25ain o Fawrth, ac roedd gwesty'r Marine yn llawn o leisiau llawen o bob oed, wedi dod at ei gilydd yn unig swydd i groesawu cyfrol Wynne Melville Jones (Wyn Mel) - *Y Fi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da* (Y Lolfa).

Dan arweiniad Sulwyn Thomas fe gawson ni ragflas o gynnwys y gyfrol drwy gyfrwng pytiau o sgyrsiau bywiog gan nifer fawr o bobl fu'n cyd-deithio a chydweithio â Wynne, darllenodd Lowri Steffan ddarnau wedi eu dethol o'r testun ac fe ganodd côr ABC gân Mistar Urdd. Roedd Mistar Urdd ei hun hefyd yn bresennol wrth reswm. Roedd y cyfan wedi ei lwyfanu'n slic fel sy'n gweddu i gwmni PR y mae ansawdd a steil cyflwyniadau yn anadl einioes iddo.

Wedyn dyma droi at y llyfr. Doedd yr hyn glywson ni yn y cyfarfod lansio am weithgarwch a dyfeisgarwch Wyn Mel yn ddim o'i gymharu â'r hyn sydd yn y llyfr.

Dyma bortread o ddyn sydd wedi byw ei oes yn cyflawni'r hyn na fyddai'r rhelyw ond yn dechrau breuddwydio am ei wneud i draddodi'r dreftadaeth genedlaethol i'r cenedlaethau sy'n dilyn.

Cawn ein harwain gyda pharch disentiment, cadarnhaol, o'i ddechreuad yn fab y Mans yn Nhregaron ar adeg pan oedd y capel yn cyfrif yn y gymdeithas, — yn ddiddorol iawn mae'n gweld tebygrwydd rhwng y weinidogaeth a PR, heb fanylu'n ormodol ar y syniad ! - drwy ei gyfnod yn fyfyriwr celf yn Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin, wedyn yn gweithio yn drefnydd yr Urdd yn Sir Gaerfyrddin, wedyn yn Swyddog Cyhoeddusrwydd a Gwerthiant yr Urdd yn genedlaethol, - dyna pryd y creodd yr anfarwol Fistar Urdd — hyd at y cyfnod pan fentrodd adael diogelwch y corff mawr i sefydlu Cwmni Cysylltiadau Cyhoeddus Strata - StrataMatrix bellach — sy'n gorff mawr ei hun erbyn hyn.

Drwy'r cyfan i gyd yr hyn oedd, ac sydd, yn ei yrru oedd ei ffyddlondeb i Gymru, i Gyd-ddyn ac i Grist, hynny a ffydd yn ei genhadaeth, yn ogystal â dogn helaeth o barodrwydd i feddwl y tu allan i'r bocs ac i weithredu ar hynny — gŵr a welodd 'y seren ddisglair drwy y cwmwl du' yn wir.

**Wynne Melville Jones Wyn Mel - *Y Fi a Mr Urdd a'r Cwmni Da* Y Lolfa 2010 176t £9.95**

# DATHLU'R 40



Merched y Wawr Rhydypennau yn Dathlu'r Deugain Llun: Dr Mike Hayward ( gweler tudalen 10)

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 328 | Ebrill 2010



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan, Felin Ddewi, 4 Glan-ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820 583
bevan.paul@gmail.com

**HYSBYSEBION -** Rhodri Morgan, Maes Mieri, Llandre SY24 5BS ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**TREFNYDD Y CYFEILLION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MAI 6 a MAI 7 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MAI 20

**EBRILL 23-24** Nos Wener a dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

**EBRILL 24** Dydd Sadwrn Ysgol Theatr Maldwyn yn cyflwyno Mela (Linda Gittins, Derec Williams, Penri Roberts) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**EBRILL 25** Dydd Sul Lyngo Theatre yn cyflwyno Wŷ a llwy yng Nghanolfan y Celfyddydau am 2.30 Ar gyfer plant 3 oed a llai

**EBRILL 26** Nos Lun Helfa drysor ar droed Merched y Wawr Rhydypennau

**EBRILL 26** Nos Lun Cyfarfod blynyddol Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch yn y Neuadd am 7.30.

**EBRILL 27** Nos Fawrth Cwmni'r Morlan yn perfformio 'Damien, Tomos ac Arianwen Wen Wen' yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre am 7.30. Mynediad am ddim; casgliad at Gymorth Cristnogol.

**EBRILL 28** Nos Fercher Cwmni'r Morlan yn perfformio 'Damien, Tomos ac Arianwen Wen Wen' yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont am 7.30 Mynediad am ddim

**MAI 4** Nos Fawrth Bara Caws yn cyflwyno Aderyn du (addasiad Bryn Fôn o ddrama David Harrower) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAI 8** Bore Sadwrn - Cinio'r Tlodion yn Neuadd yr Eglwys; Penrhyn-coch yr elw at Cymorth Cristnogol.

**MAI 9** Dydd Sul Cymanfa ganu Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Garn

**MAI 9-15** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 10** Nos Lun Cyfarfod blynyddol Merched y Wawr Rhydypennau

**MAI 13** Nos Iau Cyfarfod Blynyddol Neuadd Rhydypennau yn y Neuadd am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**MAI 13** Nos Iau Cyngerdd gyda Chôr Meibion Aberystwyth a Chôr Ger-y-lli, yng nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth am 7.30pm. Tocynnau £5. Elw at Ymgyrch Ymchwil Arthritis.

**GORFFENNAF 2** Nos Wener Noson Goffi flynyddol Capel Noddfa yn Festri`r Capel am 7.00.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Mawrth**

£25 Rhif (271) Rachel Annie-May James, Hendy, Pen-banc, Penrhyn-coch.
£15 Rhif (142) Yr Athro H Carter, Tyle Bach, Maes-y-Garn, Bow Street.
£10 Rhif ( 58) Tegwyn Lewis, Rhos-goch, Capel Madog

Tynnwyd gan Eleri Roberts a Llio Penri yn ymarfer Cantre'r Gwaelod
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.
Am restr o gyfeillion gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf


Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Cyhoeddir *Y Tincer* yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor *Y Tincer*. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.


**Deunydd i'w gynnwys**
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**CYMANFA GANU GOGLEDD CEREDIGION 2010**
yng Nghapel y Garn, Bow Street
am 10.00 a 5.30
Arweinydd: Carol Davies, Aberystwyth

Rihyrsals — nosweithiau Mercher am 7.00
Ebrill 28 Bethel, Aberystwyth
Mai 5 Capel y Garn, Bow Street

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £10 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael *y Tincer* ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB 01970 612984.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# Y TINCER

**Nôl mewn lliw**

Mae'n dda gallu dweud — fel y gwelwch — fod y *Tincer* nôl mewn lliw. Diolch i bawb a gyfrannodd i'r Gronfa Apêl.



## YMDDEOL

Ddiwedd Mawrth fe ffarweliodd y Llyfrgell Genedaethol â phum aelod o staff oedd rhyngddynt wedi rhoi 156.5 blynedd o wasanaeth i'r Llyfrgell.

Y sawl sy'n gadael y Llyfrgell yw: Gareth Lloyd Hughes, Ceris Gruffudd (Penrhyn-coch), Ann Selwood, Anne Till a Mark Mainwaring.

Fe fanteisiodd Anne Till (Dôl-y-bont). Anne Selwood, Mark Mainwaring a Ceris Gruffudd ar y cynllun ymddeol yn gynnar; roedd Gareth Lloyd Hughes yn ymadael yn sgîl yr adolygiad o'r Uned Ffotograffiaeth, ac roedd Ann Selwood wedi cyrraedd yr oedran ymddeol.

Tynnwyd y llun yn dilyn cynnal te yn Ystafell y Cyngor i ffarwelio â nhw. O'r chwith i'r dde Gareth Lloyd Hughes, Anne Till, Andrew Green (Llyfrgellydd), Ann Selwood, Rhidian Griffith (Cyn Gyfarwyddwr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus), Ceris Gruffudd a Mark Mainwaring
Llun: Mark Davey

### Cronfa Tirion Lewis

Bydd penwythnos o ddigwyddiadau ym Mhenrhyn-coch 29-30 Mai i godi arian i Gronfa Tirion Lewis. Ymhlith digwyddiadau bydd Ras 24 awr o Benrhyn-coch i gopa'r Wyddfa, gêm bêl-droed i rai dros 40 oed rhwng Aberystwyth a Phenrhyn-coch, ocsiwn, raffl, boreau te a coffi, disgo a thaith geffylau noddedig.

### Bois y Fro

Dechreuwyd pumawd newydd yn ddiweddar o blith aelodau Ger-y-lli — Bois y Fro. Os oes rhywun eisiau cyngerdd neu eitemau mewn priodas yb gellir cysylltu â Greg Roberts ar 07805939 535 neu Efan Williams ar 07791163436. Gweler http://www.myspace.com/boisyfro

### Gwefannau

Mae gan gwmni Ynni Angen a Chronfa Eleri wefan, bellach. Bydd ffurflenni cais Cronfa Eleri i'w cael yma yn ystod y cyfnod gwneud ceisiadau. Hefyd ceir hanes fferm wynt Mynydd Gorddu yn ogystal â Chronfa Eleri.
Y cyfeiriadau perthnasol yw:
http://www.ynniamgen.com/
a http://www.cronfaeleri.com/

### Dewch i'n helpu ni i "Ddarganfod Dyfi"

Drwy gymorth arian Ewropeaidd mae'r Cyngor Cefn Gwlad am ddatblygu prosiect yn ardal Biosffer Dyfi fydd yn sbarduno'r economi drwy alluogi trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd i fwynhau bywyd gwyllt.

Nod Darganfod Dyfi Explore Dyfi yw gwella cysylltiadau rhwng cymunedau a chynnig llwybrau cerdded diogel. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi hwb i dwristiaeth "werdd" yn yr ardal, gan sicrhau y gall yr economi leol elwa ar y cynnydd yn y nifer o ymwelwyr — a bod y rheini'n aros yn yr ardal am gyfnodau hirach. Prif weithgaredd Darganfod Dyfi fydd creu, cynyddu a gwella'r rhwydwaith o lwybrau ar gyfer ystod eang o ddefnyddwyr — o gerddwyr i ferlotwyr, ac o deuluoedd sydd â phramiau i feicwyr mynydd.

Ond mae'r Cyngor Cefn Gwlad angen eich help i sicrhau fod y cynllun yn llwyddiant.

Rydym am eich gwahodd i un o 15 o gyfarfodydd a gynhelir dros yr wythnosau nesaf mewn neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol i drafod beth yn union rydych chi am i ni gyd-ddatblygu. Bydd manylion am sesiwn yn eich ardal chi yn cael eu hysbysebu'n lleol — ar bosteri ac yn y wasg.

Mae'r prosiect yma'n rhan o Gynllun ehangach — Cymunedau a Natur, neu CAN. Y Cyngor Cefn Gwlad sy'n arwain y cynllun ac fe'i cefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy gyfrwng Llywodraeth y Cynulliad.

Felly, cofiwch — dyma eich cyfle i sicrhau y gall eich cymunedau chi wneud y gorau o'r cyfleoedd a'r arian a ddaw yn sgil Darganfod Dyfi.

## 30 Mlynedd 'Nôl



**Mr Eddie Jones, Prifathro Ysgol Rhydypennau a hyfforddwr y parti dawns buddugol o dan 12 oed ym Mhontrhydfendigaid. Rhes gefn: (o'r chwith) Richard Evans, Aled Hughes, Aled Lloyd, Michael Hayes, Andrew Roberts, Aled Davies. Rhes flaen: (o'r chwith) Alwen Davies, Davina Evans, Nia Rowlands, Angharad Roberts, Ffion Williams ac Esyllt Morgan. Llun: Bill Evans (O'r *Tincer* Ebrill 1980) Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn honno yn Abergele (Bro Colwyn).**

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

# Y BORTH

## Suliau Y Gerlan Mai

2 Oedfa am 10.00. Y Parchg Wyn Morris.
9 Gymanfa yng Nghapel y Garn am 10.00 a 5.30.
16 Oedfa am 10.00. Y Parchg Richard Lewis. Cymundeb.
23 Oedfa am 5.00. Y Parchg Judith Morris.
30 Oedfa am 2.00. Y Parchg Richard Lewis.

## Clwb Poenydio'r Borth!

Wel dyna beth ma rhai yn galw'r sesiwn ymarfer corff sy'n digwydd pob nos Lun! Y gwirionedd yw mai grŵp o bobl ydyn ni sy'n hoffi cadw'n heini drwy gwrdd unwaith yr wythnos i neud 'Circuits'. Mae'r setiau o ymarferion wedi eu cynllunio i wella cryfder, stamina ac ystwythder . Efallai eich bod yn meddwl fod hynny'n swnio fel gwaith caled, ond yr hyn sy'n dda am 'Circuits' yw fod pawb yn gallu gweithio ar eu liwt eu hun mewn awyrgylch hwyliog a chyfeillgar.

Yn y sesiwn awr arferol byddwn yn dechrau drwy dwymo'r corff am 15 munud - cerdded, loncian, ac ymestyn er mwyn codi cyflymder y galon a gwella ystwythder er mwyn ein paratoi ar gyfer y Gylchdaith. Yna dechrau arni - gwneud ymarferion sy'n cryfhau'r breichiau, cyhyrau'r bol a chryfhau'r coesau - sydd yn y pendraw yn gweithio prif gyhyrau'r corff yn eu tro. Wrth symud o ymarfer i ymarfer , o safle i safle, gall yr unigolyn unai ymgymryd ag ymarfer 'hawdd' neu anodd, h.y. penderfynu pa lefel o anhawster sy'n addas iddo/iddi- y profiadol yn dewis yr anoddaf o'r ymarferion a'r llai profiadol yn dewis rhywbeth haws.

Ar ddiwedd y Gylchdaith, byddwn yn paratoi i ddad-dwymo am 10 munud drwy ymestyn eto er mwyn cael gwared ag unrhyw stiffrwydd a phoenau mae rhai yn cysylltu ag ymarfer corfforol.

Mae'r ystod o oedrannau yn ein mysg yn eang- 16-60, ac mae cymaint o ferched ac o ddynion yn ein plith.Wrth gwrs mae hyn oll yn digwydd i gerddoriaeth amrywiol dros ben.

Felly, os am fod yn fwy ffit ond heb fod yn siwr sut i fynd o'i chwmpas hi, neu'n berson chwaraeon profiadol sydd am ychwanegu deimensiwn newydd i'w patrwm ymarfer, dewch i ymuno â'r poenydio (sori, hwyl).
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Ianto ar 871377 neu dewch i'r neuadd erbyn 19.30 nos Lun nesa!
I.T.



## O'r Eglwysi
## Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Daeth aelodau o bob enwad yn Y Borth a'r ardal at ei gilydd yng Nghapel y Gerlan, ddydd Gwener, 5 Mawrth, ar gyfer y gwasanaeth blynyddol i ddathlu Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o Eglwys St Mathew a Chapel y Gerlan, Y Borth, Eglwys y Santes Gwenffrewi, Aberystwyth, Capel y Babell, Dôl-y-bont ac Eglwysi Llangynfelin ac Eglwys-fach. Cyflwynwyd y gwasanaeth, a drefnwyd eleni gan Wragedd Cristnogol Cameroun. gan Mrs Tegwen Pryse.

Pregethwyd gan Y Parchg Cecilia Charles, Ficer Eglwys Sant Mathew, ar bwnc y dydd, sef "Bydded i Bopeth Byw Foliannu'r Arglwydd". Mr Glynne Evans oedd wrth yr organ.

## Sêl Ben Bwrdd

Codwyd elw clir o £242 o ganlyniad i Sêl Ben Bwrdd yn y Neuadd Gymunedol, ddydd Sadwrn 3 Ebrill. Denwyd llu o ymwelwyr i'r Sêl, a drefnwyd gan Mrs Rosa Davies, Glanwern, er budd Eglwys Sant Mathew. Diolchir yn gynnes iddi hi ac i bawb a gefnogodd yr achlysur.

## Y Morglawdd

Efallai eich bod wedi sylwi yn ddiweddar ar long lwyd yn hwylio'n araf ac yn agos i'r traeth, ac am wybod mwy o'i hanes. Yr hyn mae'n ei wneud yw archwilio natur gwely'r môr er casglu gwybodaeth ar gyfer ein Morglawdd newydd. Mewn cyfarfod yn y neuadd adeg y Nadolig 2009 dangoswyd manylion y cynllun fydd yn cynnwys 'groynes' o greigiau ac un greigres (reef) ffug. Mae'r angen am y clawdd yma'n ddirfawr, ac mae na ddigon o siarad wedi bod ers pymtheng mlynedd. Bellach, mae'r gwaith wedi cael cefnogaeth y Senedd ac mi fydd cyfraniad oddi wrth yr Undeb Ewropiaidd yn ogystal.
Disgwylir y bydd y Cynllun yn amddiffyn Morfa'r Borth am yr hanner cant i gan mlynedd nesa; cynllun sy'n cynnig cyfle na ellir ei wrthod.
A.M.

## Marwolaeth

Amddifadwyd y Borth a'r cyffiniau o gymeriad adnabyddus ac unigryw pan fu farw Mr. T. B. Lewis, Pant-glas, (Tŷ Gwyn gynt) ar Fawrth 4ydd, neu 'Berwyn' fel yr oedd pawb yn yr ardal yn ei adnabod.

Brodor o Sir Drefaldwyn oedd Berwyn, ac yn falch o'i wreiddiau yn ardal Llanbryn-mair, wedi ei godi ar aelwyd y teulu gyda'i Daid, yn y Becws, Talerddig, wedi iddo golli ei fam yn ifanc iawn. Gwaith caled welodd Berwyn yn ei ieuenctid, a bu hyn yn nodweddiadol o'i fywyd gweithiol trwy ei oes.



Symudodd ef a Sarah ei wraig i'r Borth ym 1963, yn gyntaf fel tenantiaid i Tŷ Canol, ac yna i Tŷ Gwyn hyd ei ymddeoliad o ffermio. Codasant dŷ unllawr hyfryd uwchlaw'r pentref a'i alw'n Pant-glas, ar gyfer eu hymddeoliad, ond torrwyd ar yr amser hapus yno pan gymerwyd Sarah yn wael , a cholli'r frwydr yn erbyn ei hafiechyd creulon yn 1996.

Roedd Berwyn yn gymeriad cryf, annibynol, llon a llawn hwyl, a chanddo gylch eang o ffrindiau wedi eu gwneud dros nifer fawr o flynyddoedd yn ymwneud â'i ddiddordebau eang. Roedd yn ffermwr wrth reddf, a medrai droi ei law at amryw o weithgareddau. Roedd ganddo ddawn arbennig cynhenid i drin ei anifeiliaid, ac anaml iawn oedd yr angen am alw'r Fet - byddai Berwyn wedi gwneud y "job" ei hun!.

Medrai ar ddawn i ddysgu cŵn defaid, a byddai wrth ei fodd yn mynychu treialon cŵn defaid, ac ar dro wedi eu cynnal ar dir Tŷ Gwyn. Dilynai'r cwn hela gan y gwyddai am y difrod a'r colledion oedd yn dod yn sgîl ymweliad gan lwynogod ar ffermydd yr ardal adeg wyna.

Roedd yn grefftwr medrus hefyd, ac wrth ei fodd yn troi allan waith coed o safon uchel.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Berwyn, a lles y gymuned yn flaenllaw ganddo bob amser.

Bu'n ffyddlon i'w Gapel, fel aelod, Diacon a Thrysorydd dros flynyddoedd lawer, a hynny hyd rhyw dri mis cyn ei farw.

Roedd yn gefnogol iawn i weithgareddau yn y pentref, megis y Carnifal ac ati, a chafodd achosion da ac elusennau lleol ei orau bob amser. Gwasanaethodd ar y Cyngor Cymuned am flynyddoedd, a chael y swydd anrhydeddus o Faer pan oedd y swydd honno yn bodoli yn y Borth.

Gweithiodd yn galed gydag eraill i ddwyn y freuddwyd o gael Neuadd Goffa Gymunedol aml bwrpas, a chae chwarae pwrpasol i ben, gan sicrhau bod llwyfan a phiano yn y neuadd ar gyfer cynnal gweithgareddau cerddorol. Roedd cerddoriaeth a chanu yn agos iawn at ei galon, a chyda'i lais bariton hyfryd cyfoethogodd y ganiadaeth yn y Morfa a'r Gerlan am dros ddeugain mlynedd , ynghyd a Chymanfaoedd Canu pell ac agos, Wythawd adnabyddus y Borth yn ei ddydd, Côr Cantre'r Gwaelod, ac, yn ddiweddar, Parti Meibion Dyfi.

Bu'r croeso ar aelwyd Tŷ Gwyn yn un cynnes bob amser, i ffrindiau, a'r holl garafanwyr a phabellwyr fu yn aros yno dros y blynyddoedd, a bu'n lloches i anwyliaid y teulu yn eu salwch a'u henaint

Fel y crybwyllwyd ddydd ei angladd yng Nghapel y Gerlan Ddydd Iau 11eg o Fawrth, un Berwyn oedd, a choffa da iawn amdano.


Cydymdeimlir yn ddiffuant â Meirion, Ann, Alan a Sioned, a'r teulu oll yn eu hiraeth am Dad, Taid a Hen Daid, ac â Menna ar golli un a fu'n gefn a chwmni iddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Mr. Harold Austin Samson a fu farw ar y 27ain o

# DYSGWR Y MIS

- **Beth yw'ch enw?** Sue Dalton
- **Faint yw eich oed?** Dros 50.
- **Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Dros 15 mlynedd
- **Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Yn y Borth, Hen Goleg ac yn y gwaith
- **O ble ydych chi'n dod yn wreiddiol?** Sir Stafford ond rydw i wedi bod yma dros 35 mlynedd
- **Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Ffaelais i ddysgu Cymraeg fel myfyrwr achos roedd yr hen lyfr *Teach yourself Welsh* mor llenyddol, ond fe es i i Forocco ar wyliau ac roeddwn i wedi synnu faint o hen Ffrangeg allwn i gofio a defnyddio — felly meddyliais efallai na fyddwn i'n rhy dwp i ddysgu ieithoedd - fe es i i dosbarthiadau Cymraeg. Oeddwn i'n lwcus iawn hefyd i gael ffrind da yn y gwaith i fy helpu.
- **Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Rydw i'n ei ddefnyddio yn y gwaith gyda sawl ffrind ond llai nag yn y gorffennol mae arna i ofn achos maen nhw wedi symud adran.



Fawrth - i'w feibion Dave a Brian yn ogystal a'i wyrion Sara, Ruth a Helen a'i or-wyrion niferus. Ganwyd Mr. Samson ym 1920 ac aeth i'r môr yn 17eg oed. Tra yn y Llynges fe ddysgodd i chwarae gwyddbwyll a daeth yn dipyn o bencampwr gan gynrychioli Cymru yn ogystal â sgrifennu llyfr o'r enw *Chess with the Captain*. (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 1992). Symudodd i'r Borth ym 1955 i weithio ar amddiffynfa'r môr oedd ar waith y flwyddyn honno, wedyn prynu Cafe'r Surrey gan redeg y fusnes honno am bum mlynedd ar hugain gyda'i ddiweddar wraig Violet.

### Ymweliad â Senedd Ewrop

Dymuniadau gorau i Rhys Pugh-Evans, 5 Ffordd Clarach, fydd - fel rhan o Fforwm yr Urdd - yn mynd i Frwsel ar yr 2il o Fai ac yn cyflwyno y Neges Ewyllys Da yno yn Senedd Ewrop.

# LLANDRE

### Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Dylan Huw Edwards ar ennill yr Unawd Bechgyn Bl. 7 - 9 yn Eisteddfod Sir Ceredigion. Pob hwyl gyda'r unawd a'r Sioe Ieuenctid, Plant y Fflam, yn Llanerchaeron.

Pob hwyl hefyd i Efa yn y gystadleuaeth stepio dan 25 oed.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Seren Powell-Taylor, Troed-y-bryn sydd yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron ar y gystadleuaeth unawd chwythbrennau dan 12 oed.

### Sefydliad y Merched Llanfihangel Genau'r-glyn

Rhaid bu gohirio dechrau blwyddyn Sefydliad y Merched Llandre eleni oherwydd yr eira ym mis Ionawr. Cafwyd y cyfarfod ym mis Chwefror ar 'Gwella drwy ail gysylltu'. Dangosodd yr aelodau ddiddordeb mawr yn y sgwrs gan Kathy Price ar egwyddorion y therapi gwella. Eglurodd sut iddi ddod yn ymwybodol o'r dull hwn o wellhad a sut iddi hyfforddi i allu gweithredu'r therapi. Mae'n amlwg o'r hyn a glywsom fod yr hyfforddiant wedi newid sawl agwedd o'i bywyd hi ei hunan. Dangosodd sut yr oedd y therapi yn gweithredu drwy weithio gydag un o'r aelodau a wirfoddolodd.

Bu ugain o'r aelodau yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi drwy fwynhau gwledd yn y Tynllidiart yng Nghapel Bangor. Cafwyd pryd blasus a chwmni da a mwynhaodd pawb y noson.

### Diolch

Rwyf am ddiolch i bawb yn yr ardal am yr holl gardiau, a'r geiriau caredig, anrhegion, blodau, galwadau ffôn ac ymweliadau a'm cartref yn ystod fy amser yn Nhreforys, ag adref. Diolch hefyd i'r Gweinidog Y Parchg Wyn Morris am ei ymweliadau â Threforys. Diolch o galon, Elina Davies

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mared Breese, Dolwyn ar farwolaeth ei gŵr Les a fu farw yn Ysbyty Bron-glais y mis diwethaf.

### Mam-gu eto

Llongyfarchiadau i Mary Thomas, Dolgelynen, ar ddod yn fam-gu unwaith eto. Ganwyd mab — Huw Arwel — i Alun a Mair Rishko, Penyrallt Lwyd, Neuaddlwyd; brawd bach i Ifan Llywelyn. Dymuniadau gorau i'r teulu.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Tracey, Maes y Fedwen sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

### Croeso

Croeso i Emma Jordan, Jack a Mia sydd wedi symud i Richmond, Lôn Glanfred,
Hefyd croeso yn ôl adref i Hugh a Barbara Davies Sibrwd y Coed, Lôn Glanfred ar ôl eu hymweliad â Awstralia.

### Treftadaeth Llandre

Fe ddaeth Dr Rhian Parry atom ar y 26ain o Fawrth i siarad ar y testun "Hel enwau ffermydd a chaeau yn Ardudwy - eu gwerth o safbwynt hanes lleol". Ar yr wyneb mae'n destun go gyffredin, ond i ymchwilydd craff bu yn destun doethuriaeth ac yn y man, gwobr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig i brosiect Adnabod Ardudwy ac un arbennig i'r arweinydd Dr Parry.

Ymestynna ardal hanesyddol Ardudwy o Bermo i Beddgelert yn y gogledd, ac i Drawsfynydd yn y dwyrain. Ar draws yr ardal o Lanbedr gwelir olion llwybr sy'n dyddio o'r Oes Efydd (2-5 mil CC) a meini hirion unigol ar hyd y ffordd. Ceir gwybodaeth fanwl am holl gaeau'r wlad ym mapiau'r Degwm a gyhoeddwyd ym 1840 ynghyd â rhif unigol ac yn ambell ardal enwau'r caeau. Cyn hyn ceir gwybodaeth mewn mapiau o'r stadau mawr, mewn ewyllysiau ac mewn hen ysgrifau. Casglwyd dros fil o enwau ffermydd a 14 mil o enwau caeau ac arweiniodd hyn at eu cysylltiad hanesyddol ac archaeolegol. Ond nid gwybodaeth ddibwys yn perthyn i'r gorffennol pell yw hyn, ond enwau y gellir eu gweld heddiw ar y tirlun ac yn rhan o'n treftadaeth. Mae enwau megis Cae y meini hirion yn ein cyfeirio ar unwaith i'r Oes Efydd
Dangoswyd mapiau o waith cyffelyb gan Mary Thomas o enwau caeau yng Ngenau'r-glyn.

### Actor ifanc

Llongyfarchiadau i Gwion James, Tre-medd, ar gael ei ddewis i ymuno â Theatr Ieuenctid Gwledydd Prydain.



**Cwmni'r Morlan**
yn cyflwyno
**Damien, Tomos ac Arianwen Wen Wen**: cyflwyniad ar thema hawliau dynol
*gan Sarah Down; cynhyrchydd: Geraint Evans*
**Nos Fawrth, 27 Ebrill**
yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre am 7.30 o'r gloch
Mynediad am ddim – casgliad tuag at Gymorth Cristnogol

ebrill2010.indd 5 20/4/10 12:02:20

# PEN-LLWYN/CAPEL BANGOR

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alun Jenkins, Pandy, fydd yn dathlu pen blwydd arbennig iawn ar Ebrill 11eg.

### Swydd newydd

Pob lwc i Alister Dryburgh, Maesmelindwr, pan yn dechrau ei swydd newydd gyda'r Bwrdd Dŵr yn Ystrad Fflur. Bydd rhai sydd ar rownd Alister yn ei golli, ac yntau wedi bod yn bostmon am un mlynedd ar bymtheg. Dim rhagor o godi yn oriau mân y bore!

### Ysbyty

Wrth fynd i'r wasg, 'roedd Mrs Elizabeth Jones, Rhoslwyn, a Mrs Marian Lewis, Glanrheidol, yn dal yn yr ysbyty. Gwellhad buan a chofion cynnes i'r ddwy.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Anne Elin, Dolheulog, a'r teulu ar enedigaeth ŵyr bach iddi yn ddiweddar — Oliver Jon. Dymuniadau gorau i bob un.

### Priodas Rhuddem

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Richard a Barbara Hogger, Plas Melindwr, sydd wedi dathlu eu priodas ruddem ddiwedd Mawrth. Mae Mrs Hogger yn Llywydd Sefydliad y Merched eleni. Dymuniadau gorau iddynt am hir oes a hapusrwydd.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Er mwyn dathlu gŵyl Ddewi, aed i westy Plas Antaron ar yr ail o Fawrth. Gofynnwyd gras bwyd gan Heulwen Lewis. Mwynhaodd yr aelodau bryd o gawl a tharten afalau yng nghwmni ei gilydd.

Gan ein bod yn cyfarfod rhwng dydd gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr, roedd yn briodol cael awdur yn wraig wadd, un sydd bellach wedi ymgartrefu yn ein plith. Croesawyd Caryl Lewis gan ein llywydd, Beti Daniel.

Clywsom gan Caryl sut y cafodd yr awydd i fod yn awdur yn dilyn gwahanol brofiadau diddorol a hynny yn bennaf yn y Gelli Gandryll. Mae Caryl yn ysgrifennu llyfrau ar gyfer ystod eang o oedran. Diddorol oedd deall pam yr aeth ati i ysgrifennu'r gyfres am Bili Boncyrs i blant ifanc. Daeth yn amlwg yn ystod y noson ei bod yn ymchwilio'n fanwl cyn mynd at y broses o ysgrifennu. Fel y gellid disgwyl roedd nifer o'r aelodau yn awyddus i glywed am *Martha, Jac a Sianco* ac am ei nofel ddiweddaraf, *Naw Mis* ac ni chawsant eu siomi.

Diolchwyd i Caryl Lewis am noson ddiddorol gan y llywydd. Enillwyd y gwobrau raffl gan Gwenda Morgan, Eirwen McAnulty, Llinos Evans a Hannah Davies.

# ABER-FFRWD A ChWMRHEIDOL

### Sioe Capel Bangor

Cynhaliwyd sêl cist car yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor fore Llun y Pasg. Daeth nifer o bobl ynghyd i brynu ac i werthu a gwnaethpwyd elw o £370.00 i goffrau y Sioe. Mae angen nifer o gwpanau newydd ar y Sioe. Os hoffai unrhyw un roddi cwpan byddai Nerys (880691) neu Iola (880863) neu Yvonne Dryburgh (880374) yn falch i glywed oddi wrthych. Cynhelir pwyllgor nesaf nos Fercher Mai 5ed am 8.00y.h. yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor

### Digwyddiadau

Mai 31 Trec ceffylau hamddenol trwy lwybrau golygfaol Cwmrheidol. Dechrau o'r gilfan ger y Ganolfan Groeso o 11-12 y.b. Mwy o wybodaeth cysylltwch â Nerys 880691.



Pobl Cwmrheidol wedi bod yn brysur yn clirio eu stondin!



Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor ar fore sêl cist car

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Mai

**Madog**
2.00
2 Rhodri Glyn
9 Cymanfa Ganu — Y Garn 10.00 a 5.30
16 Bugail
23 Steffan Jones
30 Adrian P. Williams

### Mynd ar daith

Llongyfarchiadau i Ifan Hywel, Maes yr Onnen, Capel Dewi (Blwyddyn 12 Ysgol Penweddig) ar gael ei dderbyn, gyda disgyblion eraill o Geredigion a thu hwnt, ar y daith hon. Dyma'r drydedd daith o'r fath a drefnwyd gan yr Urdd mewn cydweithrediad â Menter Iaith Patagonia. Byddant yn cyflawni gwaith gwirfoddol yno ac yn mynychu Eisteddfod y Wladfa yn Nhrelew.

# GOGINAN

### Gwellhad Buan

Mae Pam Scarborough. Bwthyn Pen-y-bont yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan iddi.

### Dathlu Pen blwydd

Yn ddiweddar fe ddathlodd John Clark, Nantyrarian ei ben blwydd yn 60 oed ac yn lle cael anrhegion yn ei barti fe benderfynnodd wahodd pobl i gyfrannu at yr elusen 'Helpu ein Arwyr' ac fe gododd dros fil o bunnoedd. Dathliad da a phen blwydd hapus iawn iddo.

### Y Fyddin

Ers ymuno gyda'r fyddin mae Steven Jones, Yr Hafan wedi cael sawl profiad diddorol. Ar y trydydd o Fawrth roedd yn Llundain yn gwarchod Yr Arlywydd Jacob Zuma o Dde Affrica, wedyn o fewn pedwar diwrnod roedd yn rhedeg hanner marathon yn Llanelli i godi pres at elusen o fewn y Lluoedd Arfog. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae wedi bod yn ymdeithio gyda'i gatrawd drwy ddinasoedd De Cymru yn croesawu y milwyr yn ôl o Afghanistan. Ym mis Mehefin fe fydd yn teithio i'r Falklands.

# DOLAU

### Croeso adre

Croeso adre a gwellhad buan i Gaenor Hall, Minafon, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Treforys.

### Diolch

Dymuna Gaenor Hall o Minafon, ddiolch yn fawr i bawb o bell ac agos a ddanfonodd gyfarchion iddi, gan ddymuno gwellhad buan wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.



Priododd Huw, mab Jennifer a Howard Williams, Sŵn yr Awel, a Rhiannon, merch Ruth a Huw Morgan, yng Nghapel Nasareth, Pontiets, Sir Gâr y llynedd. Y priodferched oedd chwiorydd Rhiannon - Bethan a Mari a'r flodeuferch oedd Aoife, nith Huw. David Leggett oedd y gwas priodas a'r tywyswyr oedd ei frodyr Ceri a Wyn, a'i ffrindiau o'r Dolau, Euryl Rees a Garmon Ceiro. Llongyfarchiadau mawr i'r pâr ifanc.

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 25 Mawrth yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Cyng Owain Morgan. Adroddodd y Clerc bod angen trwsio ar bron pob un o'r meinciau sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Edrychir eto ar y sefyllfa wrth gymryd stoc o'r meddiannau.

Derbyniwyd adroddiad misol y Cyng Sirol Paul Hinge a oedd yn analluog i fod yn bresennol. Dywedodd yn ei adroddiad bod ynysoedd traffic yn Bow Street wedi eu huwchraddio, a'u gwneud yn gulach yn y gobaith na bydd cerbydau yn gwrthdaro â hwy yn y dyfodol. Adroddodd hefyd am broblem mabwysiadu rhan o Maesafallen. Yn dilyn gwrandawiad yn y llysoedd yr oedd gan y Cyngor Sir hawl bellach i wneud asesiad corfforol o'r ystad yn cynnwys y garthffosiaeth a hynny yn ystod yr wythnosau nesaf. Asesiad pen desg oedd yr un cyntaf. Yn dilyn hyn bydd gan y perchnogion gwell syniad am gost y gwaith i bob annedd. Dywedodd ei fod yn derbyn cwynion cyson am y sbwriel sy'n cael ei adael yn y gysgodfa bws ym Mhen-y-garn ac mae wedi cael cadarnhad y bydd y lori sbwriel yn gwacau pob bin cyhoeddus yn yr ardal yn wythnosol. Yn ardal Dolau, dywedodd bod gorchymun cadwraeth wedi ie osod ar nifer o goed yno.

Ceisiadau cynllunio: Ni chynigiwyd unrhyw sylw ar y cais am osod hysbysfwrdd dau wynebog wedi ei oleuo wrth siop Spar, Bow Street (sydd eisoes i fyny). Nid oedd sylwadau chwaith ar gais codi garej a lloft uwchben yn lle'r garej bresennol yn Hyfrydle, Bow Street.

Gohebiaeth: Penderfynwyd derbyn llythyr oddi wrth Cymdeithas Mynyddoedd Cambria gan nodi ei gynnwys. Penderfynwyd peidio a phrynu fflagiau croeso i Eisteddfod yr Urdd mewn ymateb i lythyr oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Bydd y Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru am y flwyddyn gyfredol ar gost o £241.

Unwaith eto adroddwyd am flerwch cyfarfodydd PACT. Er galw o'r cyfarfod yn Rhydypennau ni welwyd yr un aelod o'r heddlu yno.

Yn wyneb yr ansicrwydd am ddyfodol llawer o swyddi yn IBERS Gogerddan penderfynwyd anfon llythyr at y Brifysgol yn mynegi pryder yr ardal hon gan bod llawer o drigolion lleol yn cael gwaith yno, a'r angen i'r arbrofion byd-bwysig yn y meysydd cynhyrchu bwyd barhau i gael eu datblygu.

Daeth cwyn i'r golwg bod Cwmni Punch Taverns, sef perchnogion tafarn Rhydypennau wedi codi arwyddion newydd yn uniaith Saesneg, a phenderfynwyd ysgrifennu at y cwmni i egluro bod polisi dwyieithrwydd yn bodoli yng Ngheredigion.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Ebrill.


Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938


# Prysurdeb mawr ym Mwlch Nant yr Arian

Ymwelodd y nifer mwyaf erioed o bobl ag atyniad awyr agored Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym Mwlch Nant yr Arian ger Goginan dros benwythnos y Pasg. Roedd maes parcio'r goedwig yn orlawn erbyn hanner dydd ar Ddydd Sul y Pasg, a bu'n rhaid i ymwelwyr barcio mewn cilfannau gerllaw'r ganolfan. Amcangyfrifir bod tua 1,200 o bobl wedi ymweld â'r gyrchfan boblogaidd. Bu tua 170 o blant yn cymryd rhan yn yr Helfa Wyau Pasg flynyddol dros bedwar diwrnod yr ŵyl, a buont yn chwilio am yr wyth ŵy cardbord a guddiwyd o gwmpas y llyn ac ar lwybr y Barcud gan Tom Roberts, un o gynorthwywyr y ganolfan.

Roedd pob ŵy yn cynnwys cwestiwn amlddewis ar thema'r Pasg a chafodd y plant ŵy siocled bach am bob ateb cywir ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ganolfan ymwelwyr.

Meddai Tom, "Dw i erioed wedi'i gweld hi mor brysur yma. Mae'r cyfleusterau hamdden gwych a ddarperir gennym, ynghyd â'r cyfle i weld y barcutiaid ysblennydd, yn dal i ddenu pobl o bell ac agos."



# PENRHYN-COCH

## Suliau Mai

**Horeb**
http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php
2 2.30 Oedfa Gymun Gweinidog
9 Cymanfa Ganu — Y Garn 10.00 a 5.30
16 2.30 Oedfa bregethu Y Parchg Peter M. Thomas
23 10.30 Clwb Sul bach Gweinidog
30 10.00 Oedfa : 'Dwylo' yn y Pafiliwn, Llanerchaeron

**Salem**
9 Mai Cymanfa Ganu Capel y Garn
23 Mai - 5pm - Y Parchedig Richard H Lewis,
Cymundeb

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 12 a 26 Mai. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Diolch

Diolch i bawb am y cyfarchion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniais ar achlysur fy ymddeoliad o'r Llyfrgell Genedlaethol ddiwedd Mawrth.
Ceris Gruffudd

## Ymddeoliad hapus

Llongyfarchiadau a pob dymuniad da i Wynn Humphreys, Y Gelli, sydd wedi ymddeol ar ôl 51 o flynyddoedd yn y diwydiant coedwigaeth. Bu yn siarad ar y radio â Jonsi.

## Pen blwydd hapus

Pen blwydd hapus i Sarah Lloyd sydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar y 3ydd o fis Mai. Diolch iddi am fod mor groesawgar bob amser wrth ei gwaith yn Garej Tŷ Mawr. Oddi wrth ei ffrindiau i gyd.

## Cinio Sioe

Cynhaliwyd cinio blynyddol Sioe Penrhyn-coch ar 26ain o Fawrth yn Gannetts yn Aberystwyth. Cafwyd noson ardderchog yng nghwmni Eileen a Glyn Rowlands, Frondeg, llywyddion ein sioe y llynedd. Croesawodd Dai Rees Morgan bawb yno ac ar ôl swper bendigedig a blasus fe ddiolchodd i bawb am bob cyfraniad y maent yn wneud i'r sioe yn flynyddol. Diolchwyd yn arbennig i Ann James, ysgrifennydd, am y gwaith da a chaled mae'n wneud i sicrhau ein bod yn cael sioe lwyddiannus bob amser. Fe gyd-ddiolchodd Mairwen yn ei dull arferol i bawb hefyd gan obeithio y ceir sioe lewyrchus eto eleni.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Elizabeth Wyn, Glanceulan a fu yn yr ysbyty ar ôl cael ei tharo yn wael yn sydyn.

Da yw deall fod Doli Davies, Bryntirion yn gwella yn raddol ar ôl triniaeth ar ei choes eto. Mae wedi treulio misoedd yn diodde ond obeithio bellach y bydd yn iawn.

Hefyd Glenys Thomas, Cwmfelin a fu yn yr ysbyty yn cael triniaeth ar ei hail lygad. Daliwch i wella.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 11eg o Fawrth aeth y gangen i Glwb Pêl-droed Penrhyn-coch i gael eu cinio blynyddol a dathlu Gŵyl Ddewi. Ar ôl i bawb fwynhau y cinio blasus a gawsom fe groesawodd ein llywydd, Ceri Williams, bawb a ddaeth ac hefyd Mared, Heddwen ac Emyr Pugh Evans oedd wedi dod i'n diddori. Cawsom dri chaniad ar y delyn gan Mared yn ystod y noswaith a bu Emyr, gyda help Heddwen, yn gofalu am y cwis gawsom. Cwestiynau i gyd yn ymwneud â Chymru. Ond rhaid dweud dylai fod cywilydd ar rai ohonom ein bod ddim yn gwybod hanner ddigon am ein gwlad ein hunan. Beth bynnag cafwyd noson hwyliog dros ben. Fe ddaeth Menyw Fach Cydweli (Mairwen) i'n gweld hefyd, efo'i losin du a rannodd gyda'r aelodau. Diolchodd ein llywydd i Emyr a'r teulu am noson wych ac i reolwyr y clwb a'i staff, yna i gloi y noson adroddodd Mairwen ddarn bach oedd wedi ei gyfansoddi i ddiolch i bawb hefyd. Do! Cafwyd noson dda dros ben a phawb yn mynd gartref wedi mwynhau.



## Dwy mewn Cynhadledd yn Zambia

Bu Jacqueline Minchin (Cynorthwy-ydd Gweinyddol) a Dr Ann Minchin (Hyfforddwr Dysgu 6ed Dosbarth) yn Ysgol Pen-glais ac o Rivermead, yn siarad mewn cynhadledd y Swyddfa Lafur Ryngwladol (ILO) yn Lusaka, Zambia ym ddiweddar. Thema'r gynhadledd oedd Hyfforddi a Gwaith i bobl ag Anawsterau Dysgu. Fe'u gwahoddwyd hwy i siarad am waith person ag anhawster dysgu yn y DU. Gwnaed DVD o ddiwrnod gwaith Jacqueline ac mae'n debyg iddo fod yn hynod boblogaidd gyda'r gynhadledd.

## Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Andreas Adams, Glyn Helyg (Bl 10 Ysgol Penweddig) ar gael ei ddewis i gynrychioli'r ysgol yn rownd derfynol Cystadleuaeth Gymnasteg Ysgolion Cymru. Roedd Andreas, sy'n aelod o Glwb Gymnasteg Aberystwyth, wedi ei ddewis i gynrychioli tîm Dyfed yng Nghaerdydd ar y pumed o Fawrth. Ar ôl perfformiad hynod o dda yn y gystadleuaeth

# Eglwys Sant Ioan

## Menter newydd i Benrhyn-coch Boreau coffi

Beth am drefnu i gwrdd â'ch cyfeillion yn Neuadd yr Eglwys am goffi a sgwrs, bore dydd Mawrth 20 fed o Ebrill unrhyw adeg rhwng 10 — 11.30 y. b. Yn dilyn hyn bydd y neuadd ar agor am goffi ar y cyntaf a'r trydydd dydd Mawrth o bob mis.
Gwerthir coffi, te a chacennau catre' am bris rhesymol. Rhanwch y wybodaeth â eraill.

## Diwrnod rhodd Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch

Annwyl Ffrind,
A ydych chi'n fodlon i helpu mewn unrhyw ffordd gyda chynnal a chadw eglwys y plwyf?
Eleni yr ydym yn gosod system gwresogi yn yr eglwys. Mae'r hen system wedi dirywio. Defnyddir yr eglwys gan lawer o sefydliadau ac unigolion yn ystod y flwyddyn ac felly mae'n bwysig i'w gwneud yn fwy cyffyrddus, yn enwedig i bobl hŷn y gymuned.

Os hoffech gefnogi'r fenter yma o wresogi'r eglwys, a wnewch chi gyfrannu ar ein Diwrnodau Rhodd ar Ebrill 30ain a Mai 1af rhwng 10y.b. a 7y.h. yn Neuadd yr Eglwys (Dydd Sadwrn 10y.b. hyd 1y.p.). Fe fyddwn yn ddiolchgar o unrhyw gymorth.

Os ydych yn drethdalwr, gallwch ddefnyddio un o'r taflenni syml iawn ar gyfer Rhodd gymorth a bydd hon ar gael ar y diwrnod i'ch helpu gwneud hyn. Gyda llawer o ddiolch am eich cefnogaeth.

*Parch. J. P. Livingstone*

## Rhaghysbyseb

3 Gorffennaf 2010 Te Hufen a Mefys.

tin-dros-ben a naid (tumble and vault) o dan 19 oed, enillodd tîm Dyfed y drydedd wobr.

### Diolch

Dymuna Egryn Evans ddiolch i bawb sy'n ymwneud â chinio'r gymuned bob yn ail wythnos ac am y rhodd a dderbyniodd oddi wrth bawb sy'n mynychu'r ginio i gydnabod ei waith yn gofalu pob tro ein bod i gyd yn derbyn y cinio ac yn ei fwynhau. Diolch yn fawr iawn.

### Fforwm yr Urdd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Carys Jones, Y Ddôl Fach, - un o bedwar a fydd yn cynrychioli Ysgol Pen-glais ar Fforwm yr Urdd. Ar ôl cyfres o gyfarfodydd buddiol byddant yn teithio i Frwsel fel rhan o grŵp o'r Sir i gyflwyno'r Neges Ewyllys Da ar ran yr Urdd.

### Rhedwraig brysur

Llongyfarchiadau i Elinor Thorogood, Glan Ceulan (Blwyddyn 13) Ysgol Pen-glais a enillodd fedal aur yn y Ras Medley unigol fis Ionawr. Ddiwedd Chwefror daeth yn 7fed yn y gystadleuaeth traws gwlad a diwedd mis Mawrth fe'i dewiswyd i gynrychioli Cymru mewn cyfarfod rhyngwladol ym Mansfield.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Llinos ac Andrew Hallgarth, Cadi ac Osian a Sian Davies, Nant Seilo ar farwolaeth tad Llinos a Sian fore Sadwrn 17 Ebrill


CLWB CŴL
Penrhyn-coch
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn . £4 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith 07972 315392
Neu cipiwch i mewn i'r clwb ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan,
Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

Y TINCER

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
E W R
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

SSE Renewables

Nant y Moch, a chi

Mae SSE Renewables (Airtricity gynt) yn bwriadu datblygu fferm wynt rhwng Talybont a Chronfa Nant y Moch. Rydym yn ymgymryd â gwaith ymgynghori i'ch hysbysu chi, a'r gymuned am ein cynllun. Y bwriad yw datblygu fferm wynt rhwng 140 a176 megawatt (MW) a all - o berfformio cystal a rhai eraill yn y DU - gyflenwi trydan a fydd yn gyfateb i anghenion 65,000* o gartrefi. Amcangyfrifir y bydd digon o wynt ar y safle i'r datblygiad gyflenwi trydan am 70-85% o'r amser.

**A fydd y tyrbeini'n swnllyd?**
Yn sgil datblygiadau mewn technoleg ynni gwynt dros y degawd diwethaf mae'n bosib i fecanwaith tyrbinau weithio bron yn gwbl ddistaw, gan gyfyngu'r sŵn sy'n dod ohonynt i effaith aeroddeinamig y llafnau pan yn pasio'r tŵr. Mae canllawiau tynn ar lefelau sŵn tyrbinau gwynt er mwyn sicrhau diogelwch ac ansawdd bywyd preswylwyr lleol. Fe ddylai fod yn bosib cynnal sgwrs heb orfod codi llais wrth sefyll wrth droed y tyrbin. Pan fydd y gwynt yn codi, mae sŵn y gwynt ei hun yn dueddol o foddi unrhyw sŵn a ddaw o'r tyrbin.

**A fydd y fferm wynt yn amharu ar ein gwasanaeth deledu?**
Cyn cyflwyno'r cais cynllunio byddwn yn cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys astudio unrhyw effaith posib ar y signal deledu o fewn dalgylch y cynllun. Os gwelir bod yna effaith mi fyddwn yn gweithio i oresgyn y sefyllfa. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ein harddangosfeydd cyhoeddus yn ddiweddarach eleni wedi i'r asesiad amgylcheddol gael ei gwblhau.

**Lle y gallwn ni gael hyd i mwy o wybodaeth?**
Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan www.ffermwyntnantymoch.com neu trwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cymunedol, Eluned Lewis ar 01654 702720.

*(* Seiliedig ar ddefnydd cyfatebol o 3,300KW/awr y flwyddyn)*

Swyddfa Gofrestrefig SSE Renewables Developments (UK) Cyf yw: 2il Lawr, 83-85 Great Victoria Street, Belfast, BT2 7AF Northern Ireland
Cofrestrwyd yng Ngogledd yr Iwerddon Rhif NI043294



www.ffermwyntnantymoch.com

# BOW STREET

## Suliau Mai

**Capel y Garn**
http.www.capelygarn.org
10 a 5
2 Rhodri Glyn
9 Cymanfa Ganu
16 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol dan arweiniad y Bugail am 10.30 o'r gloch gyda Chinio Bara a Chaws yn dilyn. Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch
23 Steffan Jones
30 Adrian P. Williams

**Noddfa**
2 Oedfa am 10.00. Gweinidog.
9 Gymanfa yng Nghapel y Garn am 10.00 a 5.30.
16 Uno yn y Garn am 10.00.
23 Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.
30 Oedfa am 10.00. Mr Tecwyn Jones

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Margaret Irene Hughes, 5 Cae'r Odyn, fu farw ar Fawrth 16 yn Ysbyty Bron-glais.

## Merched y Wawr, Rhydypennau

Roedd ystafell fwyta Clwb Golff y Borth yn fôr o goch nos Lun, Mawrth 8fed wrth i aelodau a chyn-aelodau cangen Merched y Wawr, Rhydypennau ymgynnull i "Ddathlu'r Deugain". Ar ôl cael ein croesawu gan Gwenda mwynhaodd pawb bryd tri chwrs blasus wedi ei baratoi gan staff cegin y clwb golff.

Torrwyd cacen pen blwydd, a oedd wedi ei pharatoi gan Brenda a Mair L, gan ddwy o lywyddion cynnar y gangen sef Gwenda James a Carwen Fychan ac Esyllt Jones, Llywydd mudiad Merched y Wawr eleni. Mwynhawyd darn o'r gacen gyda phaned o de i orffen y pryd bwyd.

Yn dilyn, cafwyd araith bwrpasol iawn gan Esyllt Jones. Soniodd am rai o weithgareddau diweddar y mudiad ac am gyfraniad merched fel Dorothy Hodkins a Sian Phillips ac yn enwedig am y rhai fu'n gysylltiedig â chyhoeddi'r llyfr "Lwmp Mam". Mae'r llyfr ar gael o "Gofal Canser y Fron" (rhif ffôn 0808 800 6000) i unrhyw deulu gyda phlant ifanc a mam wedi cael diagnosis.

Bu Tegwen Morris yn sôn am y dair C sef, cymdeithasu, croeso a Cymru gan ein hatgoffa am bwysigrwydd ein traddodiadau. Apêl Elizabeth Evans oedd inni gadw unrhyw ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â MyW yn ddiogel.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor sefydlu'r gangen ym Mehefin 1969 gan Gwenda James a diddorol oedd clywed enwau pawb oedd yn bresennol. Roedd rhai yma yn dathlu'r deugain.

Diolchodd Carwen Fychan, ar ran y cyn-aelodau, a Beryl i bawb oedd wedi trefnu'r noson ac a gymerodd ran yn y gweithgareddau. Cydymdeimlwyd â'n llywydd yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith. Dymunwyd gwellhad buan i Vera, Elina a Gaenor Hall a dymunwyd yn dda i Eirlys Owen a oedd wedi methu a dod heno. I orffen y noson tynwyd llun i gofio'r achlysur gan Dr Mike Hayward.

Gweler clawr y Tincer.

## Cylch Meithrin Rhydypennau

Prynhawn Sadwrn, 27ain o Fawrth, cynhaliodd Cylch Meithrin Rhydypennau brynhawn Hwyl y Pasg i godi arian ar gyfer ardal chwarae awyr agored. Cafwyd helfa wyau Pasg yng ngardd a chaeau Pantyperan, Llandre, a dilynwyd hynny gyda phrynhawn coffi yn Neuadd Rhydypennau. Ynghyd ac amryw stondinau, roedd cornel crefft i'r plant a chystadleuaeth boned Pasg. O'r deuddeg o blant a gymerodd rhan, y tri buddugol oedd; Ffion Roberts, Lowri Thomas, ac Osian King. Y beirniad oedd Gill Saunders-Jones a oedd yno'n cynrychioli y cwmni llyfrau Cymraeg, @ebol. Roedd Meinir Jones yno hefyd ar ran Banc Barclays, a oedd yn garedig iawn wedi cytuno i roi punt am bob punt a godwyd drwy'r fenter.

Carai pwyllgor rheoli'r Cylch Meithrin ddiolch o galon i bawb a fu'n gweithio'n galed i drefnu'r digwyddiad, i Mr a Mrs Tom a Beryl Hughes, Pantyperan am ddefnydd yr ardd, ac i bawb a ddaeth





i gefnogi. Codwyd £475.00 yn ystod y prynhawn, ac os hoffai unrhyw un roi cyfraniad, cysylltwch â Chadeirydd y Cylch Meithrin, Sharon King, 4 Maes-y-garn, Bow Street.

## Geidiau

Ymddiheuriadau! Ymddangosodd llun Geidiau Rhydypennau ar dudalen newyddion Penrhyn-coch y mis diwethaf — sylwer mai Geidiau Rhydypennau oedd yn y llun.

## Cyngerdd Sul y Blodau

Ar nos Sul y Blodau cynhaliwyd cyngerdd yng Nghapel y Garn a fu'n wledd o gân.
Hyfryd oedd clywed lleisiau persain Côr Cantre'r Gwaelod yn llenwi'r capel, dan arweiniad Eleri Roberts a chyda chyfeiliant Llio Penri ar y delyn a'r organ. Pleser oedd clywed deuawdau disgybledig Eleri Roberts a Trefor Pugh hefyd.
Dyma'r tro cyntaf i lawer ohonon ni glywed y tenor ifanc Trystan Llŷr Griffiths, ond yn sicr nid dyma fydd y tro diwethaf. Ef oedd enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts yn eisteddfod y Bala fis Awst diwethaf, ac mae ei lais a'i bersonoliaeth yn awgrymu bod llwyddiant mawr o'i flaen eto. Tudur Jones o Dywyn oedd yn cyfeilio iddo.

Wrth agor y noson mynegodd Mr Alan Wyn Jones siom nad oedd Llywydd y noson, sef Dr Dafydd Huws, Caerffili, yn gallu bod gyda ni oherwydd afiechyd. Anfonodd ein dymuniadau gorau ato gan ddiolch iddo am ei rodd hael.

## Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas brynhawn Mercher 7 Ebrill a chafwyd gair o groeso gan Gwenda Edwards y Cadeirydd. Roedd yn braf gweld Elina Davies wedi dychwelyd atom ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Treforys. Dymunwyd gwellhad buan i Gaenor Hall, Beryl Cadman a Vera Lloyd. Roedd y defosiwn ynglŷn â'r Pasg yng ngofal Judith Morris, Shân Hayward a Gwenan Price. Yn dilyn cawsom egwyl ddiddorol a bendithiol yng nghwmni Ann Mason Davies, Goginan. Pwnc ei hanerchiad oedd 'Blodau'r Beibl' a soniodd am rai o'r 80 o fathau o flodau y mae wedi dod o hyd iddynt ym Mhalesteina ar ôl darllen amdanynt yn y Beibl, yn eu mysg, y saffrwn, rhosyn Saron, y lili, iris, pabi coch, y syclamen a'r pren almon. Cafwyd gan Ann gyflwyniad unigryw gan ei bod yn feistres ar ei phwnc gyda llawenydd yr Efengyl yn byrlymu drwy'r cyflwyniad. Mwynhawyd y lluniaeth a baratowyd gan ferched Blaen-ddôl a chyrion y pentref.

## Profedigaeth

Ar fore Sul, Mawrth y 7fed , ar ôl cystudd byr, bu farw Mr Dai Davies, 56 Maesafallen, a fu yn Fferyllydd yn Nhal-y-bont am tua hanner can mlynedd. Yr oedd yn ddyn o gyraeddiadau uchel, ond yn bennaf oll rhaid cydnabod ei ddealltwriaeth o'r cyflwr dynol. Cydymdeimlir yn ddiffuant â'r teulu yn eu profedigaeth.

## Caffi Newydd

Er mai dim ond lle i ddeuddeg ar y tro sydd yno tydi maint y lle ddim yn ofid i berchnogion caffi diweddaraf Ceredigion. Yr unig beth sy'n bwysig i Heath Raggett a Rhiain ei bartner yw eu bod yn adeiladu ar yr enw da y maent wedi ei sefydlu i'w siop cigydd yn Bow Street, a hynny'n bennaf am werthu cynnyrch lleol o ansawdd uchel. Dywed Heath mai bwriad pendant ganddynt yw adeiladu ar y thema "lleol" yn y caffi hefyd ac y bydd cyfran helaeth o'r prydau fydd ar gael yno yn cynnwys cynnyrch lleol. Mae'r caffi wedi ei



Llun: Arwyn Parry-Jones

leoli lle 'roedd y siop yn arfer bod gyda`r siop wedi ei lleoli yn y cefn lle ceir y cyfleusterau diweddaraf i gadw cig yn ffres ag ati.

Er ei fod yn gymharol fychan o ran maint mae`r caffi yn llawn cymeriad, mae hen le tân yno ac mae`r muriau wedi eu haddurno â lluniau o Bow Street ar hyd y blynyddoedd. Mae`r caffi ar agor o 8 o`r gloch y bore tan tua 4.30 y prynhawn o ddydd Llun tan dydd Sadwrn a gobeithia Heath a Rhiain y bydd modd datblygu`r busness i ddarparu ar gyfer nosweithiau stêc a phartïon bychan dros y misoedd nesaf.

Mae`r brecwast trwy gydol y dydd sydd ar gael yn y Caffi yn cynnwys selsig cartref, bacwn cartref a wyau maes o Fferm Birchgrove, Trawscoed. Bydd y fwydlen resymol ei phris yn amrywio o dymor i dymor mewn ymateb i gynnyrch tymhorol ac yn sicr o gynnwys danteithion fel pasteiod cartref, lasagne, byrgers a chyrri yn ogystal ag amrywiaeth o gacennau a brechdannau. Dywed Heath y bydd croeso i gwsmeriaid alw i mewn am ddim ond paned o goffi ffres a rôl selsig os mai dyna yw eu dymuniad! Mae`r Siop a agorwyd ar ddydd Gŵyl Ddewi 2006 yn cyflenwi nifer o westai a bwytai lleol yn gyson a gyda`r datblygiad diweddaraf mae`r busnes yn cyflogi saith person yn llawn amser a rhan amser.

Er iddo gael ei eni yn Seland Newydd mae Heath yn barod iawn i ganu clodydd Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru ac fe wneir pob ymdrech i sicrhau cynnyrch lleol ar gyfer y Siop a`r Caffi ac mae`n ddiddorol sylwi fel mae`r cig sydd ar werth yn y Siop wedi ei labelu efo enw`r fferm sydd wedi ei gynhyrchu.

Mae Heath a Rhiain yn gwerthfawrogi`n fawr y gefnogaeth y maent wedi ei gael ers iddynt gymryd y busnes drosodd oddi wrth Mr a Mrs Ieuan Thomas ac yn edrych ymlaen at groesawu cwsmeriaid hen a newydd i`w menter newydd. Yr ydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt.



## Gwyn Jones

Byd amaeth oedd canolbwynt bywyd Gwyn Jones. Doedd hynny'n ddim syndod ag yntau'n hanu o deuluoedd o ffermwyr ac wedi ei fagu mewn coleg amaethyddol yr oedd ei dad yn bennaeth arno, sef Coleg Madryn ym Mhen Llŷn. Ar ôl ei ddyddiau ysgol, yn naturiol ddigon, symudodd ymlaen i astudio amaethyddiaeth yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor. Adeg yr Ail Ryfel Byd oedd hynny, a chyn cwblhau ei gwrs bu'n rhaid iddo fynd i weithio i'r 'War Ag' yn Sir Feirionnydd — sir a arhosodd yn agos iawn at ei galon byth wedyn. Ym 1947 dychwelodd i Fangor i gwblhau ei gwrs gradd a chael y fraint o letya ymhlith y myfyrwyr diwinyddol yn Ngholeg Bala-Bangor. Ar ôl graddio bu yng Nghaergrawnt am flwyddyn cyn dychwelyd i Gymru i weithio i'r Weinyddiaeth Amaeth yn Gynghorydd Amaethyddol yn Sir Gâr. Ymhen tair blynedd symudodd i Geredigion, ac yma y treuliodd weddill ei yrfa.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn hanes amaethyddiaeth Cymru. Mynychai gyfarfodydd cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion a bu'n awdur sawl erthygl hynod o ddifyr yn y cylchgrawn Fferm a Thyddyn. Bu hefyd yn weithgar iawn mewn cymdeithasau eraill, e.e. Cymdeithas yr Hafod, Cymdeithas Tir Glas cylch Aberystwyth, a Chymdeithas Defaid Mynydd, heb sôn am Gymdeithas Edward Llwyd. Byddai'n mwynhau pob un o deithiau Edward Llwyd a phan fyddai e'n arwain byddai'r paratoadau yn drwyadl tu hwnt. Y tro diwethaf iddo arwain taith roedd yn dathlu ei ben blwydd yn 83 oed. Bu honno'n farathon fythgofiadwy o ddeng milltir a mwy yn ardal Nant-y-moch ac i ben Disgwylfa Fawr, gyda nodiadau mân a manwl amhrisiadwy.

Roedd cyfraniad Gwyn i fywyd cymdeithasol Bow-Street yn un gwerthfawr iawn. Am flynyddoedd bu'n helpu i drefnu dosbarthiadau nos yn y pentref. Roedd rhychwant ei ddiddordebau yn estyn o hanes Ymneilltuwyr cynnar Cymru i farddoniaeth R. S. Thomas a nofelau Thomas Hardy. Roedd yn aelod o Gapel y Garn ac mae'n debyg mai yn ysgoldy fach Bethlehem, Llandre y bu ei wir gartref ysbrydol, lle byddai'n mwynhau cwmni a chyfraniad ei gydaelodau yn yr Ysgol Sul, ac yntau wedi paratoi yn drylwyr ar gyfer y wers. Byddai'n paratoi'n drylwyr hefyd ar gyfer casgliad blynyddol Cymorth Cristnogol yn yr ardal, gan anwybyddu pob gorchwyl arall nes cwblhau'r casgliad yn drefnus.

Bydd llawer yn cofio iddo ddioddef trychineb erchyll pan fu farw ei wraig gyntaf Menna yn hollol ddisymwth, ym mlodau ei dyddiau, gan amddifadu tri mab ifanc o gwmni a gofal mam gariadus. Gyda help nain Beddgelert, mam Menna, goroesodd y teulu bach yr argyfwng arswydus hwnnw, a'r tri mab Iwan, Huw a Dafydd wedi bod yn gefn mawr i'w tad yn ei afiechyd diwethaf, gyda help Iona a Mary, y merched yng nghyfraith, heb anghofio'r wyrion, Angharad a Rhys Gwynant.

Os gofynnwn sut y llwyddodd Gwyn i aros mor sionc a heini ac egnïol i'r fath oedran, yr ateb, wrth gwrs, yw gofal neilltuol Ann. Bu Ann a Gwyn yn briod am un mlynedd ar hugain, yn deall ei gilydd, yn parchu ei gilydd ac yn gofalu am ei gilydd. Rydyn ni i gyd yn gwerthfawrogi gofal Ann a'r teulu drosto, y gŵr diwylliedig a dawnus, y ffrind hynod o deyrngar, ffyddlon a chymwynsasgar, a'r chwedleuwr dyngarol a gyfoethogodd ein bywydau ni, bob un ohonon ni a gafodd y fraint o dreulio amser yn ei gwmni.



## Ysgol Sul Noddfa

Bu Ysgol Sul Noddfa yn brysur iawn yn yr wythnosau diwethaf. Dyma lun o'r plant ar Sul y Mamau yn arddangos eu gwaith llaw, gyda diolch i Mrs Mair Lewis am ei syniadau a'i gwersi difyr wythnosol. Cofiwch fod croeso cynnes i blant o bob oed i ddod i festri Noddfa ar foreau Sul i fwynhau'r gwersi a'r gwmnïaeth.

## Cwrdd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Yng Nghapel y Garn y daeth chwiorydd y cylch i gynnal Cwrdd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd prynhawn dydd Gwener 5ed o mis Mawrth.

Croesawodd Mrs Gwenda Edwards y llywydd, aelodau o'r tair eglwys yn groesawus iawn. Y rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth oedd:

Capel y Garn Mrs Gwenda Edwards, Mrs Mary Thomas, Mrs Shân Hayward, Mrs Ellen Evans, Mrs Meinir Roberts a Mrs Beryl Hughes

Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn Mrs Glenys Evans, Mrs Elizabeth Collison, Mrs Joy Evans, Mrs Angela Wise, Mrs Susan Jones a Mrs Susan Jackson

Capel Noddfa Mrs Mair Lewis, Mrs Eryl Ifans, Mrs Dinah Jones a M/s Elizabeth Wyn .

Miss Kathleen Lewis, Y Garn oedd wrth yr organ. Mrs Beryl Hughes a mrs Marjory Hughes oedd y casglyddion, ac fe gasglwyd £43.50 at gwaith y mudiad a £5.00 o'r Garn at gludiad y Rhaglenni. Parch Judith Morris, Horeb a draddododd yr anerchiad at y thema a baratowyd gan Chwiorydd Camaroun, Affrica. "Bydded i bob peth Byw Foliannau'r Arglwydd" wedi ei gyfieithu gan Mrs Nan Lewis, Peniel, Caerfyrddin. Mae'r wald yn cynhyrchu olew, rwber, tyfu cotwm, coed, bananas, coffi, hefyd yn tyfu fel ardal twristiaid. Er eu holl bryderon fel malaria, tlodi, diffyg maeth, marchnata plant a darparu addysg eu hymateb yw, Bydded i bob peth byw foliannau'r Arglwydd. Ymladda'r gwragedd dros gael heddwch, cyfiawnder a gonestrwydd i'r wlad.

# Holi Caryl




***Naw Mis* yw enw nofel ddiweddaraf Caryl Lewis. Nofel am yr Arhosfyd yw hi, sef y man lle mae eneidiau'r meirw yn aros am naw mis cyn symud ymlaen. Dyma atebion yr awdur i gwestiynau a anfonwyd iddi gan Llinos Dafis.**

*Llongyfarchiadau mawr ar Naw Mis. Mae hi'n wahanol iawn i'ch nofelau eraill chi. Beth oedd y sbardun?*
Fe fues i'n meddwl am gynnwys y nofel hon am amser hir. Derbyniais gomisiwn rai blynyddoedd yn ôl i greu nofel 'cross-over', sef nofel addas ar gyfer ystod eang iawn o ddarllenwyr. Ffrwyth y comisiwn hwnnw yw *Naw Mis*. Gofynnwyd imi greu nofel hir, eang ei hapêl a fyddai'n rhwydd i'w darllen ac yn diddori y rhan fwyaf o bobl. Roedd hi'n her! Es ati i greu nofel a oedd yn eistedd yn y 'sub-genre' newydd o nofelau 'ar ôl marw' fel '*The Lovely Bones*' a '*The Shack*' gan William Young.

*Dych chi'n llwyddo i dynnu deigryn a gwên yn effeithiol iawn. P'un sydd rwyddaf wrth ysgrifennu?*
Dwi'n credu'n gryf nad oes pwynt ysgrifennu os nad ydw i'n teimlo'r emosiwn dwi'n ei ddisgrifio i'r byw. Mae ysgrifennu'r llon a'r lleddf yn dda yn anodd. Dwi'n meddwl bod ysgrifennu'r lleddf yn eich gadael chi yn fwy blinedig. Yn aml dwi wedi blino'n lan ar ôl ysgrifennu rhywbeth lleddf, fel tawn i wedi arllwys rhywbeth o'm perfedd a minnau'n wâg ar ôl gwneud hynny.

*Mae'r gorffennol yn bwysig yn Dal Ati!, Martha Jac a Sianco, a'r Gemydd. Yn Naw Mis mae pobl yr Arhosfyd wedi colli eu cof ac yn dyheu am ei adennill. Ydy'r gorffennol yn bwysig i chi?*
Dwi'n meddwl bod y gorffennol yn allwedd i agor pob cymeriad. Mae'n llywio ein llwybr drwy'r byd ac yn rheoli sut rŷn ni'n ymateb i bopeth. Dim ond wrth fod yn ymwybodol o afael y gorffennol arnon ni y gallwn ni ryddhau ein hunain o'i rwymau.

Bod yn garedig roeddwn i wrth ddileu atgofion y bobl yn yr Arhosfyd. Byddai cofio pob dim a ddigwyddodd inni yn syth ar ôl marw yn greulon tu hwnt ac hefyd yn debygol o feithrin rhyw agwedd sentimental neu hunan-dosturiol yn y cymeriadau. Wrth osgoi hynny, cawn weld y cymeriadau yn tyfu ar ôl marw ac yn dod o hyd i drywydd newydd. Yn y diwedd, dyw beth sydd wedi digwydd i'r cymeriadau ddim mor bwysig a sut mae nhw'n ymdopi â phethau a beth maen nhw'n ei ddysgu yn yr Arhosfyd. Digwyddiad gweddol ddi-bwys yw darganfyddiad corff Cara yn y nofel. Wrth ennill ei chof yn ôl, daw Cara i adnabod ei hun yn well a sylweddoli bod angen symud ymlaen.

Ar un lefel mae hi'n nofel ddtectif, ar lefel arall mae hi'n archwilio syniad penodol am y broses o farw, ar drydedd lefel mae hi'n trafod y gwrthdaro rhwng ffydd a ffaith. Oes un o'r rhain hoffech chi ei archwilio ymhellach?

Roedd hi'n hanfodol i mi geisio gweithio ar sawl lefel gan fod rhaid i'r nofel apelio at ystod mor eang o ddarllenwyr a rheini o wahanol oedrannau. Fe fwynheuais edrych ar y gwrthdaro rhwng ffydd a ffaith yn fawr iawn. Mae natur ffydd yn newid yn enwedig yn y byd sydd ohoni. Mae ffydd yn y nofel yn rhywbeth mwy organig sydd ddim o reidrwydd ynghlwm wrth adeiladau na defodau. Yn y nofel mae'r 'Duw' yn anfon Cara trwy lyfrau a chelfyddyd ac mae rhai o'r cymeriadau yn symbolau o syniadau crefyddol ehangach. Dyma'r math o syniadau sy'n fy niddori i ond roedd rhaid i'r nofel weithio fel stori ysgafnach hefyd.

*Mae yma gyfeiriadau at y Beibl a Duw'r Cristnogion. Oes yna Arhosfyd arall i bobl o grefyddau eraill?*
Mae yna gyfeiriad at fosg ac addoldai eraill hefyd, ond dywed Ifan wrth Cara bod yr addoldai i gyd wedi eu cau yn yr Arhosfyd. Fe ysgrifennais am yr Eglwysi am mai dyna'r traddodiad y byddai Cara yn gyfarwydd ag ef. Hefyd, dwi'n sgwennu o safwynt Ewropeaidd.

*Fyddech chi'n galw'ch hunan yn berson crefyddol?*
Dwi'n meddwl mai un o gryfderau mwya dynoliaeth yw y gallu i gadw ffydd ac oherwydd hynny, gobaith. Dyna, i mi yn bersonol, sy'n ein gwahanu oddi wrth yr anifeiliaid. Oherwydd hynny, dwi'n meddwl fy mod i'n berson crefyddol.

*Oes un olygfa yn Naw Mis dych chi'n teimlo'n arbennig o falch ohoni?*
Dwi ddim yn siwr ai 'balch' yw'r gair ond cefais fy effeithio'n fawr wrth ysgrifennu am Cara a Lili'n croesi'r ffens i chwilio am 'Llyfr yr Arwyddion'. Mae'r modd y mae Cara, sy'n berson da ymhob ffordd arall, yn defnyddio Lili fach yn y bennod yma yn ddychrynllyd ac yn adleisio sut y gall hyd yn oed pobl dda fyhafio mewn modd ofnadwy pan maen nhw dan bwysau.

*Oes arwyddocâd i'r enw Delo?*
Mae nifer o'r cymeriadau yn symbolau yn y nofel. Mae Seimon yn gymeriad wnaeth demtio'r Iesu yn y Beibl. Mae Lili yn gymeriad gwyn. Mae Delo yno i Cara wastad. Dyw e'n gofyn dim oddi wrthi; mae e'n gwylio drosti 'doed a ddelo'.

*Diolch yn fawr i chi am eich atebion manwl. Gobeithio y caiff darllenwyr eraill gymaint o flas ar Naw Mis ag a ges i.*


Caryl Lewis gyda'i mab Joseff Hedd

A'r Tincer ar fin mynd i'r wasg clywyd fod *Naw Mis* Caryl wedi cyrraedd Rhestr Hir Llyfr y Flwyddyn 2010. Llongyfarchiadau iddi! Cyhoeddir y Rhestr Fer o dri theitl yr un yn y ddwy iaith mewn digwyddiad yng Ngwyl y Gelli ar ddydd Sul 6 Mehefin a chynhelir Seremoni Wobrwyo Llyfr y Flwyddyn 2010 ar nos Fercher 30 Mehefin yng Ngwesty Dewi Sant, Caerdydd.

Theatr Genedlaethol Cymru
yn cyflwyno dwy ddrama fer
'Dau. Un. Un. Dim', gan Manon Wyn
&
'Yn Y Trên', gan Saunders Lewis
Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd
Actorion: Rhodri Meilir & Lowri Gwynne
Nos Iau 13 Mai 2010
a
Nos Wener 14 Mai 2010
Yn
Pafiliwn Cenedlaethol Cymru, Pontrhydfendigaid
Bydd bysiau yn cael eu trefnu o ardal Aberystwyth
I archebu tocynnau a lle ar y bws cysylltwch â 01974 831635
I gael gwybodaeth am weddill y daith, ewch i
www.theatr.com

ebrill2010.indd 12 20/4/10 12:10:27

# Cân y Cardis ar Gryno Ddisg



Lansiwyd Cryno Ddisg ddwbl 'Rhuban Glas y Cardis' er mwyn codi arian i Sioe'r Cardis 2010. Uno traddodiad amaethyddol ac eisteddfodol y Cymry, ac yn wir y Cardis, wna'r casgliad yma gan ddwyn at ei gilydd, am y tro cyntaf erioed, 19 o berfformiadau gan 17 o enillwyr y Rhuban Glas mewn CD ddwbl — un CD ar gyfer Gwobr Goffa David Ellis (dros 25ain oed) a'r llall ar gyfer Gwobr Goffa Osborne Roberts (dan 25ain oed). Mae yma gyfoeth o leisiau gan gynnwys lleisiau Soprano, Contralto, Tenor, Bas a Bariton. Mae gan ymron pob un o'r artistiaid gysylltiad â byd amaeth mewn ryw ffordd neu'i gilydd. Roedd pob un o'r 17 artist yma'n byw yng Ngheredigion pan fu iddynt ennill y Rhuban Glas, ac eithrio un, sef Evan Lloyd, sy'n ennill ei le ar y CD yma gan iddo hanu o Geredigion ac iddo fyw yma am dros 50 mlynedd! Ceir ar y CD gasgliad o ganeuon poblogaidd y Cymry gan nifer fawr o enwau amlwg byd yr Eisteddfod.

Mae'r enwau yma'n adnabyddus iawn i gymuendau Ceredigion ac yn wir ledled Cymru, ac y mae'n hollol bosib bod un neu ddau ohonynt yn byw yn eich plith heddiw neu'n hannu o'ch ardal. Mae casgliad CD David Ellis yn cynnwys y cantorion canlynol:

EVAN LLOYD, Rhosllannerchrugog 1961
DAI JONES, Rhydaman 1970
ANGELA ROGERS DAVIES, Caerfyrddin 1974
BERWYN DAVIES, Aberteifi 1976
GWION THOMAS, Machynlleth 1981
EIRWEN HUGHES, Abertawe 1982
WASHINGTON JAMES, Llanelwedd 1993
DELYTH HOPKINS EVANS, Castell-nedd 1994
ROBYN LYN, Sir y Fflint 2007

GWOBR GOFFA OSBORNE ROBERTS — Y RHUBAN GLAS DAN 25ain OED
TEIFRYN REES, Rhosllannerchrugog 1961
CAROL DAVIES, Aberafan 1966
IFOR LLOYD, Y Barri 1968
ANGELA ROGERS DAVIES, Y Fflint 1969
HUW RHYS EVANS, Dyffryn Lliw 1980
BETHAN DUDLEY FRYAR, Casnewydd 1988
ROBYN LYN, Llanelli 2000
GARETH HUW JOHN, Meifod 2003
GWAWR EDWARDS, Casnewydd 2004
RHIAN LOIS, Abertawe 2006

Mae'r CD ar gael am £13 mewn siopau lleol yn Aberystwyth sef Siop Inc, Stryd y Bont a Siop y Pethe, Aberystwyth.



Daw un o'r unawdwyr o ddalgylch y Tincer - Eirwen Hughes, Pen-cwm, Penrhyn-coch. Yn frodor o Lledrod, fe'i penodwyd yn athrawes yn Ysgol Gynradd Lledrod ar ôl cyfnod yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd. Ers priodi mae'n byw ym Mhen-cwm lle magodd dri o blant ac erbyn hyn mae'n fam-gu i dri. Bu'n cystadlu mewn eisteddfodau, gan gynnwys Eisteddfod Pantyfedwen a Gŵyl Fawr Aberteifi. Bu'n arwain Côr Merched Ceulan yn Nhal-y-bont a hi yw Cadeirydd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch ers sawl blwyddyn.

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Mawrth, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen yn y gadair; roedd chwe aelod arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc, ac roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn oddi wrth Gwenan Price, Kari Walker, Melvyn Evans a Trefor Davies.

Roedd y Cynghorydd Sir, Dai Suter, wedi anfon copi i'r Clerc o neges e-bost yr oedd ef wedi'i hanfon at Adran Briffyrdd Cyngor Ceredigion ynglŷn â sawl mater yr oedd y Cyngor Cymuned wedi'i godi gyda'r Adran fwy nag unwaith. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am fwy o finiau graean, cyflwr y ffordd fawr rhwng Penrhyn a Gogerddan, cyflwr y ffordd ger Pont Rhydybeddau a'r angen am balmant rhwng Stad Tan-y-berth a'r Swyddfa Bost. Anfonwyd copi yn ogystal at Ray Quant, yr aelod cabinet â chyfrifoldeb am faterion priffyrdd. Roedd y Cyngorydd Suter wdi addo gadael i'r Cyngor wybod pan gâi ateb.

Roedd y Cyngor yn parhau i ddisgwyl atebion gan yr Heddlu ynglŷn â pharcio ger mynedfa Maes Seilo, gan Dai Ceredigion ynglŷn â chael rhagor o le i barcio ar Stad Tan-y-berth, a chan y Comisiwn Coedwigaeth ynglŷn â thocio'r coed ger y fynedfa i goed Allt Ddel heb fod ymhell o Blas Gogerddan.

Rhoddodd Dai Rees Morgan adroddiad am ddigwyddiad codi arian llwyddiannus iawn a fu yng Nghartref Gogerddan ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Nododd Dafydd Sheppard fod cymysgedd wedi bod am hysbysebu cyfarfod o PACT (y cyfarfodydd rhwng yr heddlu a'r cyhoedd); penderfynodd y Cyngor holi'r Heddlu a oedd y cyfarfod wedi cael ei ganslo, a gofyn am well cyhoeddusrwydd i'r cyfarfodydd yn y dyfodol. Penderfynodd y Cyngor na fyddai'n rhoi ei enw yn yr het ar gyfer lle mewn te parti ym Mhalas Buckingham, gan nad oedd y Cadeirydd yn dymuno mynychu'r digwyddiad.

Cais cynllunio: 24 Glan Seilo, Penrhyn, newidiadau ac estyniad — dim sylwadau. Am gofnod llawn gweler www.trefeurig.org .


**DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993**
**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**
**AR GYNLLUN ADDYSG GYMRAEG**
**(DRAFFT)**
**[o 12 Ebrill tan 31 Mai 2010]**

Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi paratoi Cynllun Addysg Gymraeg sy'n egluro sut y bwriadwn ddarparu gwasanaethau addysg i chi yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. Gwahoddwn sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd y gall y Cynllun effeithio arnynt.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Drafft wrth ymweld â'n gwefan www.ceredigion.gov.uk neu gellir gweld copi caled o'r cynllun drafft yn rhad ac am ddim trwy gysylltu â :

**Dr Rhodri Llwyd Morgan**
**Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol**
**Cyngor Sir Ceredigion**
**Canolfan Rheidol**
**Aberystwyth**
**SY23 3UE**
**01970 633601**
**addysg@ceredigion.gov.uk**

dros y ffôn, e-bost neu wrth lythyru.

Gallwch hefyd astudio'r Cynllun Addysg Gymraeg yn ein llyfrgelloedd, swyddfeydd y Cyngor Sir a chanolfan Cyngor ar Bopeth Aberystwyth.

Dylech anfon unrhyw sylwadau at addysg@ceredigion.gov.uk erbyn 31 Mai 2010.
Ar sail y sylwadau, byddwn yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno gyda'r Cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth.

## COLOFN MRS JONES

Rhaid cychwyn yr erthygl hon trwy ddymuno yn dda i olygydd *y Tincer* ar ei ymddeoliad cynnar diweddar.Wrth gwrs, ymddeol o'r bwthyn ar y bryn y mae wedi ei wneud, y mae'n dal ati gyda ei wasanaeth cyhoeddus a diau y bydd yn brysurach rwan nac erioed. Ond pob hwyl iddo, beth bynnag, a mentraf air o gyngor a hwnnw ydi iddo wneud yr hyn a fynn fel y mynn,wedi'r cyfan, fel y gŵyr pawb, yr hyn na wnaed ac na welwyd yr edifarheir o'i herwydd yn aml iawn.

Pan oeddwn yn iau fe soniwn innau am ymddeol gyda brwdfrydedd ond, wrth i mi heneiddio, y mae'r awydd yn pylu. Bron iawn nad oes un o reolau mawr bywyd yma, sef nesaf yw rhywun at ei bensiwn, mwyaf hoff ei waith yn ei olwg.

Cofiwch chi, dydw i ddim yn hoff iawn o'r syniad o oed ymddeol. Mae'n wiriondeb noeth yn fy marn i ddweud bod rhywun yn ffit ac abl i weithio tan hanner nos un diwrnod ac yn swpyn egwan a diymadferth y bore wedyn. Ond eto fe allaf weld yr angen amdano hefyd, wedi'r cyfan, petai pawb yn cael dewis pryd i ymddeol, a weithiai unrhyw un? Ond efallai fod ffordd arall o daclo'r syniad, sef caniatau i bawb weithio tra y mynn a thra y medra - ac efallai y daw i hynny, beth bynnag, oherwydd y gostyngiad mewn genedigaethau, gostyngiad sydd yn golygu fod llai ohonom ar ôl i weithio a thalu trethi.

A'r gostyngiad hwn, wrth gwrs, yw un o'r rhesymau paham y dechreuodd Prydain groesawu mewnfudwyr oherwydd mae'n ostyngiad sydd yn golygu fod llai o bobl ifanc ar gael i ymgymryd â swyddi - yn arbennig swyddi megis nyrsio a gofalu. Rwan, mae mewnfudo yn bwnc dadleuol iawn ac nid wyf am ei drafod ond fe hoffwn ofyn un cwestiwn. Paham nad yw Sais sydd yn gofyn am reoli mewnfudo yn hiliol pan gyhuddir ni'r Cymry o hiliaeth am ofyn am yr un peth?

Fe fydd sawl Aelod Seneddol yn gorfod ymddeol mewn dim, pan gyll ei sedd yn yr etholiad nesaf. Ac mae ambell un yn llwyr haeddu cic owt os gwir hanner y sgandal am eu costau. Ac i feddwl fod gan rai ohonynt yr wyneb i ofyn am gymorth cyfreithiol i ymladd yr honiadau yn eu herbyn ac mae'n fwy gwrthun fyth eu gweld yn ei gael. Efallai eu bod yn medru profi cyfiawnder eu cais amdano ond yn foesol nid oes ganddynt geiniog o hawl iddo am nad yw ei roi ond megis cynnig darn arall o gacen y wlad iddynt. Sawl un ohonynt sydd, dybed, wedi cwyno am amgylchiadau ariannol anodd y wlad dim ond i anghofio'r amgylchiadau hynny pan oedd hi'n fater o gael arian iddynt eu hunain.

Mae'n wir fod gan Aelodau Seneddol yr hawl i ofalu nad ydynt ar eu colled am eu gwasanaeth cyhoeddus a gallaf weld grym y ddadl fod ansicrwydd ynglŷn â'r rheolau wedi arwain ambell un i gors.Y mae gennyf i ateb i'r holl gwestiwn o lwfansau ac ati yr honnai Aelodau Seneddol fedru eu hawlio. Awgrymaf adeiladu neuadd breswyl iddynt un ac oll a chyflenwi eu holl anghenion llety a chyfarpar swyddfa am ddim. Fe fyddai hwn yn gynllun drud i'w gychwyn ond fe dalai ei wneud, yn wir, gallasai arbed arian ar ddwy lefel. Yn gyntaf, ni fyddai angen i neb roi cais i mewn am ddim byd ac, yn ail, ond odid na ellid creu un swyddfa fawr o ysgrifenyddesau ac ymchwilwyr gan ddadlau mai dim ond aelodau'r cabinet oedd angen swyddfeydd a swyddogion preifat.

Bid a fo am hynny, gofaled pawb ohonom bleidleisio pan ddaw'r cyfle neu ni fydd gan neb yr hawl foesol i gwyno ychwaith.

## COLOFNYDD Y MIS




Lisa a Rhys

### O LILI FACH Y GWANWYN…

### Lisa Davies

Mae'n siŵr bod nifer ohonoch chi, ddarllenwyr *y Tincer*, yn gwybod bellach mod i'n disgwyl eto. Mae Dad wedi bod yn rhannu'r newyddion da â phawb a phopeth! Mae e di bod yn diflannu bob hyn a hyn i 'fynd i'r Garej' neu i 'fynd â'r ci am dro' o amgylch y pentre, ond dwi'n gwybod yn iawn mai esgus yw hyn. Mynd i chwilio am rywun mae e'n ei nabod y mae e, i gael dweud bod y teulu Evans/Davies yn 'cynyddu'. Angel Gabriel Penrhyn-coch!



Briodais i yng Nghapel Horeb Penrhyn-coch bron i dair blynedd yn ôl â 'Gog' o ochrau Caernarfon. Dyn ni bellach wedi ymgartrefu yn y ddinas ddrwg yn ardal Victoria Park, gyda Nel, ein merch fach, a fydd yn ddwy ym mis Mehefin.

Newidiodd fy mywyd i'n fawr ar ôl priodi - rhwng symud tŷ a cheisio sicrhau cydbwysedd rhwng fy mywyd gwaith/cartref. Bydd y rheini sy'n fy nabod i'n dda yn gwybod bod sicrhau'r cydbwysedd hwn yn dasg amhosibl i mi, gan mai fi yw un o'r bobl fwyaf anniben yn y byd. Peidiwch â chamddeall, dwi'n ddigon bodlon ar fy swydd - nid dyma sy'n peri'r drafferth. Y broblem yw, dwi'n anobeithiol am gadw tŷ taclus (a dyw Rhys, y gŵr, fawr gwell). Dydw i ddim yn 'Dduwies Ddomestig' o bell ffordd. Fel mae Mam yn ei ddweud - dydw i ddim yn gweld llanast!

Felly, pan gyrhaeddodd Nel, ges i'r sioc ryfeddaf! Mae'n anodd credu bod babi bach yn gallu dod â chymaint o 'stwff'. Y bag newid gyda'r napis a'r 'wipes', y teganau, y dillad glaw, y cotiau cynnes, y gym babi, y bath bach, y pram, y cot/gwely, y mobeil, y monitor...i enwi dim ond ychydig. Ac i berson anniben fel fi, mae'r holl bethau hyn yn hunllef. Pe bawn i'n agor drws y cwtsh dan staer, byddai'r cynnwys yn llifo allan fel môr o Fisher Price. Ac mae un arall ar y ffordd cofiwch!

Ond dyna ni, mae digon o weithgareddau yn mynd rhagddynt yn yr ardal sy'n golygu (i) nad oes rhaid aros yn y tŷ drwy'r dydd i ychwanegu at y llanast a (ii) nad ydw i'n cael cyfle i ddechrau taclo'r llanast hwn heb sôn am ei orffen! Neu o leiaf, dyna yw fy esgus i! Dydd Llun: Nel yn mynd at Siwan y gwarchodwr plant (tra mod i'n gweithio); dydd Mawrth: Cylch Ti a Fi; dydd Mercher: Clwb Brecwast Capel Salem; dydd Iau: Grŵp Chwarae Kings Road; dydd Gwener: Nel yn mynd at Siwan. Ac wrth gwrs, bob yn ail wythnos mae Nain Penrhyn-coch yn dod i Gaerdydd i warchod tra mod i'n gweithio. Efallai nad ydw i'n llwyddo i sicrhau cydbwysedd bywyd gwaith/cartref ond o leiaf mae Nel yn cael cydbwysedd da.

Mae byw yn y ddinas yn wych o ran cyfleoedd i Nel. Mae caffi newydd wedi agor yn ddiweddar yn Nhreganna, o'r enw Bambeans, sy'n cynnig ardal chwarae meddal i'r plant tra'n bod ni, y rhieni blin/blinedig, yn gallu ymlacio gyda chylchgrawn a cappuccino. Nefoedd!

Er yr holl atyniadau hyn, rhaid cyfadde' mod i'n hiraethu am fro'r Tincer yn ofnadwy ar adegau. Fyddai byw o fewn tafliad carreg i Nain, Dac a Pips (y ci) yn braf - yn enwedig pan fydd y babi newydd yn cyrraedd. Mae'r syniad o beidio â gorfod cofrestru fy mhlant i'r cylch meithrin lleol cyn iddynt gael eu geni yn apelio'n fawr hefyd! (Peidiwch â holi!)

Does wybod lle y byddwn ni yn y dyfodol. Ond mae un peth yn bendant. Fe fyddwch yn siŵr o weld Nel fach ni ar lwyfan Steddfod Penrhyn rhyw ddiwrnod yn bloeddio 'O lili fach y gwanwyn ...' (ar yr amod nad yw hi wedi etifeddu llais ei thad, hynny yw!).

**Y mis nesaf**: Lleucu Roberts

Mae Lisa yn gyfieithydd gyda Chwmni Prysg yng Nghaerdydd

Colofnwyr Chwefror a Mawrth
Â'r Tincer yn mynd i'r wasg dal i ddisgwyl y mae Sa'ipolu o Tonga — cariad Gwenno Dafydd (Colofnydd mis Mawrth) am fisa i ddod i Brydain a dyddiad y briodas yn dynesu.
Mae Angharad Watkins (Colofnydd mis Chwefror) a wyres Eilir a Linda Morris, Capel Bangor yn dal i aros ym mhrifddinas Gwlad yr Ia — Reykyavik lle bu am wyliau

ebrill2010.indd 14 20/4/10 12:10:31

# Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

Dechreuodd tymor yr Adran Iau wythnos hanner tymor mis Chwefror. Dros yr wythnosau diwethaf maent wedi bod yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth y Gwanwyn.

Canlyniadau
*Pencampwriaeth y Gwanwyn 1 — Medal*
1af Luke Williams (Bow Street) 81:15:66
2il Ben Hughes-Jones (Tal-y-bont) 97:28:69 (9 cefn)
3ydd Rhodri ap Dafydd (Goginan) 80:11:69

*Pencampwriaeth y Gwanwyn 2 — Stableford*
1af Duncan Perkins, 40 pwynt
2il Luke Williams (Bow Street), 38 pwynt (3 cefn)
3ydd Ben Hughes-Jones (Tal-y-bont), 38 pwynt

*Pencampwriaeth y Gwanwyn 3 — Bogey*
1af Duncan Perkins, +4
2il Zach Galliford (Y Borth), +3
3ydd Ioan Lewis (Bow Street), +2

*Pencampwriaeth y Gwanwyn 4 — Medal*
1af Chris Davies (Clarach)
2il Gethin Morgan (Pisgah)
3ydd Ben Hughes-Jones (Tal-y-bont)

*Pencampwriaeth y Gwanwyn 5 — Stableford*
1af Gethin Morgan (Pisgah), 44 pwynt
2il Ioan Lewis (Bow Street), 40 pwynt
3ydd Luke Williams (Bow Street), 32 pwynt

*Pencampwriaeth y Gwanwyn 6 — Bogey*
1af Gethin Morgan (Pisgah) +5
2il Chris Davies (Clarach) +3
3ydd Zach Galliford (Y Borth) -2.

*Pencampwriaeth y Gwanwyn 7 — Medal*
1af Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 79:11:68 (3 cefn)
2il Gethin Morgan (Pisgah) 89:21:68 (9 cefn)
3ydd Chris Davies (Clarach) 100:32:68



Yn y llun gwelir yr aelodau o dan 16 oed roedd newydd dderbyn hyfforddiant ym Mhenrhos. Chwith i'r dde: Dai Linquist, Trefnydd Adran Iau Dyfed; Luke Williams, Ioan Lewis, Jacob Billingsley, Rob Ryder, Hyfforddwr Adran Iau Dyfed. Yn absennol o'r llun roedd Zach Galliford.




Mae 9 aelod o'r Adran Iau wedi cael eu dewis i gael hyfforddiant Sir Dyfed eleni. Yn y llun gwelir yr aelodau o dan 18 oed a'r rhai o dan 14 oed gyda trefnydd ac hyffoddwr Dyfed. Chwith i'r dde: Rob Ryder, Hyfforddwr Adran Iau Dyfed; Rhodri ap Dafydd, Iolo ap Dafydd, Daniel Basnett, Ellis Lewis, Steffan Richards a Dai Linquist, Trefnydd Adran Iau Dyfed.

Y TINCER

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar
01970 881090 / 07792457816

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Ymweliadau

Yn ystod wythnos olaf tymor y gwanwyn trefnwyd amryw o weithgareddau ac ymweliadau.

Llyfrgell Genedlaethol

Cafodd blwyddyn 5 a 6 y fraint o ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno, fel rhan o waith Hanes y tymor, cafodd y plant gyfle i ddysgu rhagor am gyfnod Y Tuduriaid trwy gyflwyniadau a gweithgareddau difyr iawn. Diolch i Rhodri ac Owen am fore arbennig

Wythnos Gwyddoniaeth

Trannoeth, fe aeth yr un criw i'r Brifysgol er mwyn dathlu 'Wythnos Gwyddoniaeth'. Profwyd nifer o weithgareddau diddorol iawn gan y plant yn ystod y bore a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn.

## Cwmni Theatr Arad Goch

Yn ystod yr un cyfnod daeth Arad Goch i'r ysgol. Bu blwyddyn 1 a 2 yn gwylio 'Martha Drafferthus' hanes merch fach bryderus dros ben sy'n ofni'r gwaethaf ym mhob sefyllfa. Roedd y perfformiad yn cynnwys stori am gath, cerddoriaeth, caneuon a phypedau a thrwy hyn, cafodd y plant gyfle i ddefnyddio'u dychymyg a phrofi ystod o deimladau ac emosiynau.

Yn hwyrach, cafodd blynyddoedd 3 i 6 gyfle i fwynhau 'Jac a'r Blwch Aur'; perfformiad a oedd yn plethu dylanwad unigryw chwedlau rhyngwladol y sipsiwn Cymreig, a cherddoriaeth traddodiadol y Cymry. Fel arfer cafwyd perfformiadau proffesiynol a graenus iawn gan yr actorion.

## Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd

Yn dilyn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Montrhydfendigaid llwyddodd y Parti Cerdd Dant i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanerchaeron fis Mai yma.



Rhodri Morgan, Y Llyfrgell Genedlaethol yn arddangos Beibl hynafol William Morgan i rai o blant blwyddyn 5 a 6.



Cwmni Arad Goch yn perfformio i flwyddyn 1 a 2



Cwmni Arad Goch yn perfformio i flwyddyn 3,4,5 a 6.



Plant blwyddyn 6 yn mwynhau 'Wythnos Gwyddoniaeth'.



Tim Pel-rwyd yr ysgol-Pencampwyr Cylch Aberystwyth.

## Chwaraeon

Mae tîm hoci'r ysgol wedi cael tymor neilltuol o dda eleni eto. Nid yn unig llwyddodd y tîm i ennill Y Gynghrair yng nghylch Aberystwyth; cipiodd y tîm Y Cwpan hefyd! Llongyfarchiadau mawr iddynt am ennill 'Y Dwbwl!' Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r tîm gwblhau'r orchest arbennig hon. Gwych!

Pêl-rwyd a Phêl-droed

Ar y 19eg o Fawrth cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed cylch Aberystwyth. Chwaraeodd bechgyn y tîm pêl-droed yn dda iawn ond colli wnaethant yn y rownd derfynol o 1 gôl i 0. Anffodus iawn. Ar y llaw arall; llwyddodd merched y tîm pêl-rwyd i drechu ysgolion eraill y cylch a chipio'r bencampwriaeth yn hynod o effeithiol.

## Gwefan yr ysgol

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w
lladd mewn
lladd-dy lleol
Cysylltwch â
Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i
Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn
gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A
SWYDDFA BOST
PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD
Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd
Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a
chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# YSGOL PENRHYN-COCH



## Biathlon

Llongyfarchiadau i Mathew Merry. Bu Mathew yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Biathlon GB ar drac enwog Crystal Palace yn Llundain. Treuliodd ddydd Sul i lawr yn Llundain yn rhedeg ac yn nofio a llwyddodd i ddod yn uchel yn y tabl ar ddiwedd y cystadlu. Diolch i bawb a fu'n barod i'w gefnogi - yn enwedig Mr Dic Evans s(rhedeg), Teleri Donnelly (nofio) a Garej Tŷ Mawr am y nawdd.

## Eisteddfod yr Urdd

Bu mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol wrthi'n ddiwyd dros y misoedd diwethaf yn creu gwaith ar gyfer yr Eisteddfod Celf a Chrefft. Cwblhawyd y gwaith hwn yn ystod sesiynau wythnosol o'r Urdd ynghyd â nosweithiau eraill di-ri. Mae diolch arbennig i holl rieni, teuluoedd ynghyd â ffrindiau da yr ysgol a ddaeth i gynorthwyo gyda'r holl waith. Roedd yn braf iawn gweld cymaint mor barod i gefnogi ac i gynorthwyo Miss Owens gyda'r gwaith. Er yr holl gystadlu yn yr Eisteddfod Rhanbarth, llwyddwyd i ennill pump o wobrau cyntaf ynghyd â nifer o dda o wobrau ail a thrydydd. Erbyn hyn mae'r canlyniadau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi a llwyddwyd eleni i ennill un wobr gyntaf ac un ail. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled. Diolch hefyd i'r rhai a fu'n barod iawn i gynorthwyo gyda'r cludo i'r pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid.

Dyma'r canlyniadaun rhanbarthol:-

Gwaith Creadigol 2D Bl. 2 ac iau
2il Charlotte Richmond, Ysgol Gynradd Penrhyn-coch

Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 ac iau
2il Megan Evans

2D Bl. 6 ac iau (Angh. Arbennig)(D)
2il Huw Meredydd

Pyped Bl. 3 a 4
3ydd Sion Hurford

2D Tecstilau Bl. 2 ac iau
1af Sian Jenkins
2il Florrie Lithgow

3D Tecstilau Bl. 2 ac iau
2il Elisa Martin

3D Tecstilau Bl. 5 a 6
1af Holly Thomas

Gwau/Crosio Bl. 3 a 4
2il Lowri Walther
3ydd Jenny James

Gwehyddu Bl. 2 ac iau
1af Charlotte Ralphs

Gwehyddu (Cywaith) Bl. 3 a 4
1af Grwp Penrhyn-coch

Penwisg Bl. 6 ac iau
3ydd Steffan Thompson

Print Lliw Bl. 2 ac iau
2il Ceri Garratt

Printiau Du a Gwyn Bl. 2 ac iau
3ydd Sian Jenkins

Printiau Lliw Bl. 2 ac iau
2il Sian Jenkins

Gemwaith Bl. 2 ac iau
2il Ceri Garratt

Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4
1af Seren Jenkins

Dyma'r canlyniadau Cenedlaethol:-

Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4
1af Seren Jenkins

Gwehyddu Bl. 2 ac iau
2il Charlotte Ralphs

Er mwyn sicrhau ein bod yn diolch i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith paratoi ar gyfer yr uchod, cynhaliwyd bore coffi arbennig yn yr ysgol. Gwahoddwyd pawb a fu wrthi gyda'r disgyblion. Mae ein diolch yn enfawr fel ysgol i'r gwirfoddolwyr hyn am eu parodrwydd i sicrhau fod pob disgybl a oedd am gystadlu yn cael yr un cyfle a'r un chwarae teg. Diolch i Miss Owens am gydlynnu'r cyfan!

## Pêl-rwyd

Bu tîmau pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol yn chwarae yn nhwrnament ysgolion y Cylch yn ddiweddar. Cafwyd llawer o chwarae da ac ymdrechion da gan aelodau'r tîmau ond yn anffodus ni lwyddwyd i fynd drwodd i'r rownd nesaf. Da iawn i bob un am eu hymdrechion.

## Llyfrgell Genedlaethol / Cynulliad

Fel rhan o waith y tymor wrth astudio hanes cyfieithu'r Beibl gan William Morgan, manteisiwyd ar y cyfle i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Teithiodd Blynyddoedd 5 a 6 i lawr a chafwyd croeso arbennig yn ôl yr arfer gan Rhodri Morgan. Treuliwyd y bore yn edrych ar lyfrau Crefyddol cyn cael cyfle i fynd i lawr i'r celloedd a chasglu copi o Beibl William Morgan. Bu'r disgyblion yn edrych ar lyfrau Crefyddol crefyddau eraill megis Islam a Bwdhaeth. Cafwyd hefyd gyfle i grwydro o amgylch yr arddangosfeydd yno ynghyd â gweld copi o'r llyfr lleiaf yn y byd. Diolch i Rhodri am ei holl waith a'r croeso a gawsom yno. Ar ôl cerdded i lawr a chael picnic yn y Clwb Rygbi, aethpwyd ymlaen at adeiladau newydd y Cynulliad. Yno i'n croesawu oedd Deian Creunant. Bu'n sôn wrth y disgyblion am waith y cynulliad ynghyd â phwrpas yr adeilad newydd. Rhannwyd y disgyblion yn grwpiau a chawsant gyfle i bennu cyllid y Cynulliad — rhannu miliwn o bunnoedd o dan y penawdau amrywiol — tasg ddiddorol. Diolch i Deian a'r staff am y croeso a gafwyd yno.



Seren Jenkins a enillodd gwobr gyntaf a Chralotte Ralphs a enillodd ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Celf a Chrefft yr Urdd



Rhai o enillwyr gwobrau yn Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion



Y disgyblion yn pennu cyllid y Cynulliad

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

# YSGOL CRAIG-Y-WYLFA

## RSPB

Daeth aelodau o'r RSPB i'r Ysgol i drafod eu gwaith yn Ynys-hir ac i addysgu'r disgyblion ynglŷn â adar yn mudo — cawson nhw sesiwn ddifyr yn trafod pa adar sy'n mudo o Gymru i wledydd eraill, a pha fath o siwrne maent yn profi wrth fynd o un fan i'r llall. Fe ddysgon ni am wahanol mathau o adar a mwynheuodd y disgyblion i gyd y sesiwn.

## Agor Drysau

I gefnogi Gŵyl "Agor Drysau" Arad Goch fe fuodd dosbarth Miss Edwards i wylio perfformiad o "Queen of Colours." Fe fwynheuodd pawb y perfformiad yng Nghanolfan Arad Goch — Hefyd buodd blwyddyn 3 a 4 i wylio perfformiad o "Millie and the Minnotour" yng Nghanolfan y Celfyddydau ac fe fwynheuodd pawb y perfformiad.

## Gweithdy Gwyddoniaeth

Buodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yng ngweithdy Gwyddoniaeth a drefnwyd gan y Brifysgol. Cafodd y disgyblion cyfle i grwydro o amgylch y stondinau gan holi cwestiynau ynglŷn â thestun y stondin. Roedd nifer o weithgareddau difyr wedi trefnu ar eu cyfer, gan amrywio o paill blodau, magnedau, edrych ar migrosgop. Buodd y disgyblion yn crwydro'r stondinau gan lenwi holiadur am yr hyn yr oeddent wedi ei ddysgu. Cafodd y disgyblion nwyddau am ddim hefyd. Cafwyd prynhawn difyr iawn.

## Ffair Pasg

Diolch i bwyllgor Rhieni a Chyfeillion yr Ysgol a fu wrthi yn trefnu Ffair Pasg yn ddiwyd ers hanner tymor. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau difyr — gan gynnwys rhai o flaen llaw i werthu yn y ffair. Roedd mygiau a gynlluniwyd gan y disgyblion ar werth, stondin cacennau, enwi'r gwningen, dyfalu pwysau'r gacen a stondinau amrywiol heb anghofio'r raffl wrth gwrs. Codwyd tua £500. Diolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith diwyd.
Diolch hefyd i'r rhieni a fuodd yn helpu pacio bagiau yn yr archfarchnad "Morrisons." Llwyddwyd i godi £200 i'r coffrau. Diolch yn fawr i chi.

## Cyngerdd Henoed

Bu nifer o ddisgyblion yr Ysgol o dan ofal Miss Claire Howells yn cynnal cyngerdd byr o eitemau amrywiol ar gyfer henoed yr ardal. Cafwyd eitemau megis dawnsio, canu, canu offerynnau. Diolch i'r disgyblion am eu perfformiad a diolch i Miss Howells am ei harweiniaid. Mwynheuodd y disgyblion ac roedd yr henoed yn werthfawrogol iawn hefyd.


Hwyl a miri yn y Ffair Pasg


Mwynhau gweithgareddau RSBP yn yr Ysgol – dysgu am fudo anifeiliaid


Clwb Chwaraeon – Gwersi Golff



Enillwyr hetiau pasg yn y Ffair Pasg


Cyngerdd i'r Henoed

ebrill2010.indd 18 20/4/10 12:11:47

# YSGOL PEN-LLWYN

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alaw Evans, Bl. 3, ar ennill gwobr am ysgrifennu stori yng nghylchgrawn yr Urdd *Cip*. Catherine Aran oedd y beirniad a threfnodd y Cyngor Llyfrau iddi ddod i'r ysgol i adrodd storïau i'r plant. Cawsom fore ardderchog a'r plant wedi chwerthin lond eu boliau wrth i Catherine ddefnyddio ei sgiliau actio i ddweud ei storïau.

## Yr Urdd

Da iawn chi am gystadlu a llongyfarchiadau i Haf Evans, Bl. 3, am ddod yn gyntaf ar yr adrodd 8-10 yn yr Eisteddfod gylch.

## Diwrnod y Llyfr

Bu'r plant yn nosbarth dau yn creu pamffledi i annog plant i ddarllen llyfrau. Dewisodd pawb ei hoff lyfr i'w bortreadu. Aeth dosbarth 1 ati i ddylunio clawr newydd ar gyfer y stori Fferm Swnllyd.

## Gŵyl Ddewi

Cafwyd diwrnod hwyliog Cymreig yn Ysgol Pen-llwyn eleni. Buom yn gwneud gwaith cartref i'w feirniadu e.e. coginio, barddoniaeth, llawysgrifen a.y.b. Cyn cinio cawsom awr o ganu caneuon poblogaidd Cymreig a gorffen gyda Hen Wlad fy Nhadau. Cinio o gawl i ddilyn. Ar gais y plant gwahoddwyd Erwyd Howells atom i gynnal dawns Werin. Diolchwyd iddo gan Tomos Evans Bl. 5 oedd yn dymuno iddo ddod yn ôl eto y flwyddyn nesaf.

**Canlyniadau — Dosbarth 1**
**Celf - Peintio**
Huw Griffiths
Alan Williams
Llŷr Evans
**Celf — Lliwio**
Laura Jones-Williams
Morgan Joyce-Kensler
Alan Williams
**Coginio — Pice ar y maen**
Levi Way
Morgan Joyce-Kensler
Carys Thomas
**Llawysgrifen**
Laura Jones-Williams
Morgan Joyce-Kensler
Carys Thomas
Canlyniadau — Dosbarth 2
**Celf Bl. 3 a 4**
Haf
Nuala
Iestyn
**Celf Bl. 5 a 6**
Rhian
Lauren
Matthias
**Llawysgrifen Bl. 3 a 4**
Nuala
Jack
Steffan
**Llawysgrifen Bl. 5 a 6**
Matthias
Amy D.
Amy B.
**Barddoniaeth Bl. 3 a 4**
Steffan
Iestyn
Rebecca
**Barddoniaeth Bl. 5 a 6**
Matthias
Amy D.
Gethin
**Cenhinen**
1af Alison
2il Nuala
**Coginio — Pice ar y maen**
Rhian
Iestyn
Haf


Hwyl yn canu Hen Wlad fy Nhadau ar Ddydd Gwyl Dewi.

## Clwb yr Urdd

Aethom am dro i Nant yr Arian a bu pawb yn edrych am yr anifeiliaid oedd wedi eu cuddio ar y llwybr. Cawsom helfa guddio gwrthrychau ar dir yr ysgol. ŵy Pasg oedd y wobr i bawb a gymerodd ran.
Bu Mr Andrew Davies gyda ni yn dangos sut i edrych ar ôl y beic. Cafodd amryw o'r plant gyfle i fynd ar feic Manon (Diolch iti Manon). Diolch i Mr Davies am roi ei amser i ddifyrru plant y clwb.

## Clwb Hwyl

Mae'r Clwb Hwyl yn cyfarfod ar yn ail a'r Urdd a bu'r plant yn brysur yn gwneud ŵyn bach gan ddefnyddio cynffonau ŵyn bach fel cynffon. Diolch i Mrs Ann Davies, Mrs Heulwen Evans ac Mrs Aeronwy Lewis am gynnal y clwb trwy'r flwyddyn. Roedd y plant wedi mwynhau'r parti yn fawr.

## Masnach Deg

Yn ystod pythefnos Masnach Deg cawsom weld rhaglen am amryw wledydd oedd yn cynhyrchu cotwm. Dysgwyd ble oedd y gwledydd hyn a buom yn dylunio crysau T. Masnach Deg ar gyfer y gweithwyr cotwm.

## Iaith a chwarae

Pleser oedd cael Mary Jones i gynnal sesiynau Iaith a chwarae am dair wythnos yn neuadd yr ysgol. Derbyniodd disgyblion yr Ysgol Feithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 wahoddiad i ddod i gael amrywiaeth o weithgareddau ieithyddol hwylus. Diolch yn fawr hefyd i'r rhieni am ddod i gefnogi a chymryd rhan.

## Clwb chwaraeon

Cynhelir clwb chwaraeon ar Nos Iau yn wythnosol. Mae'r plant wedi cael hwyl yn wneud gêmau, dawns a phêl rwyd yn ystod y mis diwethaf. Cafodd y plant hwyl yn creu dawns greadigol mewn grŵpiau. Sgiliau tenis fydd ein sialens am yr hanner tymor nesaf.

## Gala Nofio

Llongyfarchiadau i'r plant a fu'n cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio Iestyn, Jo, Manon a Rhian.


Catherine Aran yn difyrru Dosbarth 2.

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

ebrill2010.indd 19 20/4/10 12:12:08

# TASG Y TINCER


Carwyn Davies

Ddaru chi fwynhau eich gwyliau Pasg? Gobeithio i chi gael siawns i fynd allan i chwarae a chael digon o awyr iach. Faint o wyau Pasg ddaru chi fwyta?! Mi fues i'n bwyta llawer gormod! Daeth 14 llun ŵy Pasg drwy'r post y mis diwethaf, ac roedd pob un ohonyn nhw'n ardderchog. Dyma pwy fuodd wrthi'n lliwio:

Harri Antoninis, Dôl Bebin, Pen-y-garn; Alaw Evans, Pwll Cenawon, Capel Bangor; Carwyn Davies, Cynon Fawr, Llanfihangel-y-Creuddyn; Katie Boake, Llawen-fan, Salem; Iwan James, 8 Stryd Lewis, Machen; Gronw Fychan Downes, Glanrafon, Trefeurig; Craig Edwards, Y Lôn Groes, Bow Street; Rhys ac Elain Tanat, Fferm Glanfred, Llandre; Nualla Ellis Jones, Maes-y-neuadd, Capel Bangor; Rhodri Jones Tŷ'r Banc, Bont-goch; Gwenno Mair Griffiths, Tynllechwedd Bach, Y Borth; Siwan Aur George, Llys y Garth, Llanilar; Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor.

Ti Carwyn, Llanfihangel-y-Creuddyn sy'n cael y wobr y tro hwn am dy ddewis o liwiau llachar. Da iawn i'r gweddill ohonoch chi, a daliwch ati!

Wel, pa driciau ddaru chi chwarae ar eich teulu a'ch ffrindiau ar Ebrill y 1af? Mae hanes y diwrnod arbennig hwn yn ddiddorol iawn. Ganrifoedd yn ôl, yn 1582, dechreuwyd defnyddio'r calendr sydd gennym ar hyn o bryd. Yn ôl yr hen galendr, byddai'r flwyddyn newydd yn cychwyn tua Ebrill y 1af. Nid oedd pawb yn croesawu'r newid hwn, a bu rhai dal yn dathlu'r calan ar ddechrau Ebrill yn hytrach na'i ddathlu ar Ionawr y 1af. Galwyd rhain yn ffyliaid am nad oedden nhw'n deall fod y drefn wedi newid a'u bod nhw fisoedd yn hwyr gyda'r dathliadau! Roedd y Rhufeiniaid yn dathlu gwyl 'Hilaria' ar Fawrth 25, ac mae gan yr Iddewon eu 'Purim' tua'r adeg hon o'r flwyddyn. Poisson d'Avril yw enw'r Ffrancwyr ar Ebrill 1af, a bydd plant y wlad yn glynu llun o bysgodyn ar ddrws rhywun y mae nhw wedi chwarae tric arnyn nhw. Rwy'n cofio stori ar y teledu ar Ebrill y 1af am sbageti yn tyfu ar goed, ac am gwmni Burgerking yn gwneud byrger arbennig ar gyfer pobl llaw chwith!

Rydym yn cysylltu mis Ebrill efo cawodydd o law trwm, yn gymysg â thywydd braf. Cofiwch gadw'r ymbarel yn handi, rhag ofn i chi lychu! Y mis hwn, beth am liwio'r llun Tedi druan, wedi ei ddal yn un o gawodydd mis Ebrill? Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Calan Mai (Mai 1af) i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 328 | EBRILL 2010

ebrill2010.indd 20 20/4/10 12:12:17